# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 541 · **Ebrill 2023** · 50c

## Gwobr Genedlaethol i Beca



Beca gyda Catrin Wager a Siân Gwenllian AS

Ar Mawrth 17 cyflwynwyd gwobr Seren y Dyfodol Plaid Cymru i Beca Roberts, cynghorydd sir Tregarth a Mynydd Llandygai.

Cyflwynir y wobr yn flynyddol yng nghynhadledd y Blaid er cof am Steffan Lewis, cyn Aelod o'r Senedd dros Ddwyrain De Cymru.

Cyflwynwyd y wobr iddi yng Nghanolfan Cefnfaes, Bethesda gan Siân Gwenllian AS a Catrin Wager, Ymgeisydd Plaid Cymru yn yr ardal yn yr etholiad San Steffan nesaf.

Yn ôl Siân Gwenllian: "Mae Plaid Cymru Arfon yn ffodus o'n haelodau ifanc, brwdfrydig sy'n glod i'w cymunedau. Llongyfarchiadau Beca!"

## Dathlu Sul y Mamau



Rhai o blant Ysgol Sul Capel Carmel gyda'r blodau wrth ddathlu Sul y Mamau (stori ar dudalen 8).

DARLITH GOFFA DAFYDD ORWIG 2023

**'BREUDDWYD BARDD-CHWARELWR O DDYFFRYN OGWEN'**

gan

Dr Gwen Angharad Gruffudd

Nos Lun,
5 Mehefin am 7.30
yn Llyfrgell
Bethesda

*********

Mynediad am ddim

Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd gyda chydweithrediad Partneriaeth Ogwen

Yn y rhifyn yma



7 Dathliad o fyd natur



9 Picnic Masnach Deg

Nofwyr o fri




6

# Llais Ogwan

**Rhif 541**
Ebrill 2023

**Panel Golygyddol**

**Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com
**Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com
**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com
**Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk
**Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com
**Walter a Menai Williams**
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk
**Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com
**Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com
**Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com
**Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606) rmll42@live.co.uk
**Catrin Wager**
(Ffôn 07366 418318)
catrinwager@yahoo.co.uk

**Swyddogion**

**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 / 07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com

**Y Llais drwy'r post:**
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
**Dewi A. Morgan.**

Y golygydd ym mis **Mai** fydd
**Lowri Roberts,** 8 Pen y Ffriddoedd,
Tregarth, Bangor, LL57 4NY.
01248 600490.
E-bost: l.roberts11@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 29 Ebrill** os gwelwch yn dda.
Casglu a dosbarthu
**Nos Iau, 18 Mai,**
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45

**DALIER SYLW**: NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## CLWB CYFEILLION

**Gwobrau Ebrill**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (37) | Iona Jones, Rhiwlas. |
| £20.00 | (185) | Dafydd Roberts, Tregarth. |
| £10.00 | (92) | Menai Jones, Tregarth. |
| £5.00 | (73) | Carolyn Jones, Rhiwlas. |

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604).

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
**Gareth Llwyd** – 601415
**Neville Hughes** – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain** – £22
**Ewrop** – £30
**Gweddill y Byd** – £40
Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
01248 600184

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

CYMRAEG

**post@llaisogwan.com**

## Dyddiadur y Dyffryn



**Ebrill**
24 Te Bach, Carmel Llanllechid. 2.30 – 4.00
25 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
26 Clwb Hanes Rachub, Caellwyngrydd a Llanllechid. "Iaith Pesda" gyda Mary Jones. Clwb Criced am 7.00.
29 Bore Coffi Cymdeithas Jerusalem. 10.00 - 12.00

**Mai**
01 Gŵyl Hinsawdd Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen a Llys Dafydd. 10.00 – 4.00.
01 Arddangosfa a Marchnad Cynhyrchwyr Bwydydd Lleol. Llaethdy Gwyn. 10.00 – 4.00.
09 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
12 Seremoni Coroni Carnifal Bethesda. Ysgol Dyffryn Ogwen am 6.00yh.
13 Bore Coffi Cymorth Cristnogol. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
13 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.00.
17 Clwb Hanes Rachub, Caellwyngrydd a Llanllechid. "Edward Stephen, Tanymarian" gyda Trystan Lewis. Clwb Criced am 7.00
18 Noson gasglu a dosbarthu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.
20 Carnifal Bethesda. Y diwrnod mawr.
23 GyrfaChwist. Cefnfaes am 7.00.
30 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.

**Mehefin**
03 Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen. Caeau Rygbi Bethesda.

**Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?**

Cysylltwch â **Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| **£100.00** | Er cof am J. Elwyn Hughes oddi wrth y teulu, Deilwen, Gwyndaf, Garmon, Siôn a Manon. |
| **£4.50** | Elfyn Roberts, Bryn Caseg, Bethesda. |
| **£10.00** | Rhoddion Di-enw Bryn Caseg, Bethesda. |
| **£10.00** | Doris Shaw, Arafa Don, Bethesda. |
| **£10.00** | Hefin Morgan, Seland Newydd. |
| **£5.00** | Nia Williams, Erw Las, Bethesda. |

**Diolch yn fawr**

# Gwynedd Ddigidol



Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Gwynedd Ddigidol wedi bod yn helpu trigolion Gwynedd gyda chymorth digidol o bob math - helpu pobl i ddeall eu ffonau clyfar / tabled/ iPad i archebu tocynnau bws ar lein. Rydym hefyd yn gallu eich helpu i gael offer digidol os nad ydi'r modd gennych i brynu gliniadur, tabled neu ffôn.

Fe fydd Gwynedd Ddigidol yn mynd o amgylch hybiau yng Ngwynedd am y misoedd nesaf yn bennaf i helpu trigolion sy'n cael trafferth ddigidol gyda phethau megis safwe'r cyngor sir ar Gostau Byw, hefyd cymorth gydag adnabod sgamiau ac apigau a fuasai'n eich cynorthwyo i arbed arian a chael bwyd yn rhatach. Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu rhai o'r sesiynau yma plîs jyst dewch draw i un o'r llefydd ar yr amserlen isod ac fe fyddwn yn fwy na pharod i'ch helpu.

Un o'r bobl sydd wedi derbyn cymorth gennym ydi Alan. Mae Alan wedi derbyn tabled gennym ac mae o wedi bod yn dod i'n sesiynau ni yn un o'n hybiau i ddysgu sgiliau digidol. Mae wedi canfod bod hyn wedi ei gwneud yn haws i reoli ei anabledd, gan gynnwys gallu cymryd rhan yn ei sesiynau ffisiotherapi wythnosol dros Zoom; cadw mewn cysylltiad â'r elusen Dystroffi Cyhyrol – MDUK; ymchwilio i'w salwch ar-lein a chadw i fyny â'r datblygiadau yn y maes meddygol hwn.

Mae Alan hefyd wedi dysgu sut i ddefnyddio e-bost a'i gyfrif ar-lein yn effeithiol i rannu pethau gyda'i deulu. Mae wedi dod o hyd i ddefnyddiau eraill ar gyfer y dabled hefyd, fel gwylio ffilmiau ar-lein. Mae gwneud hyn gyda'i glustffonau ymlaen yn golygu nad yw'n tarfu ar weddill y teulu. Dywedodd Alan fod hyn yn helpu gyda'i iechyd meddwl hefyd. Disgrifia Alan y gefnogaeth a gafodd: 'Mae'r sesiynau hyn wedi rhoi llawer o hyder i mi oedd yn berson di hyder. Hoffwn ddiolch i Wynedd Ddigidol a Citizens Online am eu gwaith caled. Rwy'n teimlo y gallaf bob amser ddod yn ôl am fwy o gefnogaeth os bydd ei angen arnaf'.

Os hoffech fynychu un o'n sesiynnau yn eich hardal chi, rydym yn y llefydd isod bob wythnos:

**Partneriaeth Ogwen, Bethesda**
Dydd Mawrth
9.30am - 12.30pm

**Neuadd Bentref, Rhiwlas**
Dydd Mercher
10.00am - 12.00pm

# O New South Wales i Ogledd Cymru

Cafwyd ymwelwr arbennig i ddiddanu trigolion Bethesda a'r cylch ar nos Wener yr 17eg o Fawrth, wrth i'r cerddor o Awstralia, Adam G Cole ddychwelyd i chwarae gig yn nhafarn y Fic. Dydi Adam G Cole ddim yn ddieithr i'r ardal – chwaraeodd ei fand Trappist Afterland gig yn Neuadd Ogwen yn 2018 fel rhan o ddathliad gwerin ryngwladol, a pherfformiwyd trac sain amgen i'r ffilm Walkabout yn sinema Pontio yn 2019. Naws reit ysbrydol sydd i gerddoriaeth werinol Adam G Cole, gyda llawer o'r cyfansoddion yn cael ei chwarae ar yr offeryn dwyrain canol, yr Oud. Dylid nodi, fod dylanwad mawr ar gerddorion Bethesda ar ei waith. Edmygai Adam G Cole, caneuon John Gwyn a'i fand Brân, ac mae wedi ysbrydoli gan gyfnod Meic Stevens yn yr ardal, pan sgwennodd yr album Gôg yn 1977. Yn wir, gwelai Adam G Cole fod chwarae gigs ym Methesda fel pererindod gerddorol ac mae o (a'r gynulleidfa niferus a thrafeilwyr yn bell i'w weld) yn cael noson bleserus pob tro.

Roedd Adam arall yn chwarae ar y noson arbennig hon hefyd. Er roedd Adam J. Qüæck wedi teithio cryn lai o bellter na Adam G Cole. Mae Adam J. Qüæck wedi ymgartrefu yng Ngharneddi ers rhai blynyddoedd a rhoddodd set egnïol o roc gwerinol gyda nifer o'i ganeuon gwreiddiol Cymraeg yn cael ei chwarae yn fyw i gynulleidfa am y tro cyntaf .

Bydd gigs rheolaidd bob yn ail ddydd Gwener yn y Fic . Gyda detholiad o dalent leol a rhyngwladol yn perfformio. Mae mynychu'r gigs yn rhad ac am ddim. Am fwy o wybodaeth https://www.facebook.com/FicBethesda/



**Adam Cole a Qüæck yn y Fic**

## Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen

Ar y 25ain o Fawrth cynhaliwyd diwrnod Gwaith Maes Ffermwyr Ifanc Eryri. Dyma'r tro cyntaf i'r digwyddiad yma gael ei gynnal ers 10 mlynedd, ac fe gafodd Clwb Dyffryn Ogwen ddiwrnod llwyddiannus iawn. Yn ystod y dydd roedd cystadlaethau barnu stoc, arwerthu, fferm ffactor a chystadlaethau peiriannau. Roedd yr aelodau yn brysur iawn yn ystod y bore yn barnu moch ar gyfer magu, defaid Charollais a gwartheg Holstein. Dyma ganlyniadau aelodau Clwb Dyffryn Ogwen, gyda llongyfarchiadau i bawb a wnaeth cymryd rhan:

**Cian Rhys**
2il gyda'r Arwerthu
3ydd gyda barnu moch o dan 18
3ydd gyda barnu defaid Charollais o dan 18

**Beca Jackson**
3ydd gyda barnu moch o dan 21
3ydd gyda barnu gwartheg Holstein

**Gethin Harper**
2il gyda barnu moch o dan 30

**Sallie Roberts**
3ydd gyda barnu defaid Charollais o dan 30
3ydd gyda barnu gwartheg Holstein o dan 30

**Iwan Harper**
1af gyda barnu defaid Charollais o dan 30
1at gyda barnu gwartheg Holstein o dan 30

Symud ymlaen fydd y clwb rŵan i baratoi at y rali flynyddol ddiwedd mis Mai, fydd eleni yn cael ei chynnal ar Fferm Llystyn Ganol, Garndolbenmaen.

## Llandygái

**Iona Wyn Jones**, Dyma Fo,
16 Pentref, Llandygái, Bangor
LL57 4HU (01248 354280)
ionawynbangor@gmail.com

Roedd Robin Jones o'r pentref yn ddathlu ei ben-blwydd yn 99 ar yr 20ed o Fawrth. Daeth nifer o'r pentrefwyr draw i Neuadd Talgai i ddymuno yn dda iddo. Roedd wedi mwynhau yn arw. Hoffai ddiolch yn fawr i bawb.



Robin gyda dwy deisen!

## PERSAIN

Bob Nos Fercher yn y Clwb Rygbi yn Bethesda am 7.30 mae côr cymysg PERSAIN yn ymarfer ac maent yn awyddus i gael mwy o aelodau.

Geraint Roberts, Prestatyn, sy'n arwain ac Angela Roberts yn cyfeilio.

Dewch draw am dro i fwynhau canu caneuon o bob math. Bydd yr ymarfer nesa ar Ebrill 19.

Mwynhad yn wir!

Beth am ymuno?

## Eglwys Sant Tegai, Llandygai

**Pasg Hapus**
Bendithion y Pasg i holl drigolion Dyffryn Ogwen a darllenwyr Llais Ogwan oddi wrth cynulleidfa St Tegai.

**Siampên!**
Llongyfarchiadau i Tony Hopkins o Fethesda, un o aelodau ein chwaer-Eglwys St Cross a enillodd y siampên yn Raffl Santes Dwynwen. Gobeithio cafodd Tony a'i wraig Sue gyfle i fwynhau gwydriad (neu fwy!) o'r siampên wrth ddathlu ei ben-blwydd arbennig yn 80eg oed. Diolch i bawb a brynodd docyn. Mae'r elw yn mynd i'n Cronfa Atgyweirio Rhan 2.

**Teithiau Rhys Mwyn**
Fel y soniwyd ato yn rhifyn Mawrth o'r Llais, arweiniodd Rhys Mwyn, mewn cydweithrediad â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, bedair taith gerdded o Gastell Penrhyn i bentref ac Eglwys St Tegai a dan adain Gŵyl Dewi Bangor. Roedd yr ymateb i'r 3 taith wreiddiol mor frwdfrydig a'r galw mor uchel bu angen trefnu taith ychwanegol! Cafodd y cerddwyr groeso soniarus gan y clychau ar ôl crwydro'r fynwent ac ymweld â'r adeilad. Uchafbwynt yr ymweliad oedd y cyfle anghyffredin i weld sbardynau John Iorc, sef Archesgob John Williams 1582 - 1650, un o enwogion yr ardal, offeiriad, diwinydd, gwleidydd mwyaf ei amser, milwr a chymwynaswr. Bydd cyfle i ymweld â'r Eglwys o Basg ymlaen, pan fydd yr adeilad ar agor yn ddyddiol. Mae Eglwys St Tegai yn ran o'r cynllun cenedlaethol "Eglwys Agored" ers 2004. Dewch draw!

**Gwaeledd**
Gyrrwn ein dymuniadau am wellhad buan i Helen Gill, Llanfairfechan. Mae'n ddrwg gennym glywed ei bod yn parhau i gael problemau iechyd.

**Gwasanaethau Ar y Sul**
Mae'r gwasanaethau St Tegai am 11.00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis. Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth yr eglwys.

**Ar Ddydd Mercher**
Gwasanaeth 10.15, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis. Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn.

**Tymor y Pasg**
Bydd manylion gwasanaethau tymor y Pasg ym Mro Ogwen ar gael ym mhorth yr eglwys.

**Manylion Cyswllt**
Y Parch Ddr Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen felly gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248361521 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys



Taith 1af Rhys Mwyn ym mynwent St Tegai.



Tony Hopkins, enillydd Raffl Santes Dwynwen yn derbyn ei wobr gan Y Parch Ddr. Gareth Lloyd. Llongyfarchiadau.

## OGWEN TERRACE, BETHESDA

# UN RHES, DAU DDEG DAU O DAI



gan Andre Lomozik

### RHAN 7

(Parhad i 3 Ogwen Terrace)

Teulu **William Griffith** oedd yn byw yn rhif 3 Ogwen Terrace erbyn y flwyddyn hon (1881) ac roedd yntau yn llyfrwerthwr, yn enedigol o Lanllechid, fel ei wraig a'i fab. Roedd William yn 54 oed, Ellen yn 39, ac Owain Gwilym y mab yn 8 oed. Ganwyd dau blentyn arall i William ac Ellen cyn ei farwolaeth yn 1884, sef William Thomas, ac Ellen Janet. Ar ôl marwolaeth William mae'r teulu i'w canfod yn byw ym Mhenygraig, Bethesda yng nghyfrifiad 1891. Fodd bynnag, mae'n debygol iddynt symud o rif 3 Ogwen Terrace yn 1887, oherwydd mae hysbyseb ar yr 2il o Ragfyr o'r flwyddyn hon yn *The North Wales Express*, '*Property Sale – Pm Monday, Mr R. P. Evans sold a leasehold house known as 3 Ogwen Terrace, Bethesda, for £255. Mr R. Gray, Bangor, was the vendor's Solicitor.*'

Mae dau adroddiad yn cofnodi ei farwolaeth yn ymddangos yn *Y Drych,* y naill ar Dachwedd 27, 1884, a'r llall ym mis Rhagfyr 1884.

Yn y cyntaf cawn hysbyseb o'i farwolaeth. 'Cofnodir marwolaeth William Griffiths, llyfrwerthwr, Ogwen Terrace, Bethesda, Ystyrid ef yn llenor enwog, ac yn un o'r rhai helaethaf ei wybodaeth ym mhlwyf Llanllechid.'

Ac yn yr ail gofnod cawn yr atgof yma.

*Y Drych*, dydd Iau, Rhagfyr 4, 1884. t.2, WILLIAM GRIFFITH, TYDDYN IOLYN. Adgofion am dano gan un o'i Hen Gyfeillion.

Heddiw derbyniais lythyr a'r Herald o Gymru yn fy hysbysu am farwolaeth William Griffith, 3 Ogwen Terrace, Bethesda, Arfon, G.C., yr hyn a gymerodd le ar y 9fed cyfisol. Taflodd y newydd trwm fi i bryder anghyffredin. Yr oedd William Griffith yn un o'r dynion gorau fu ar y ddaear erioed. Nid ydoedd yn siaradgar nac yn ymhongar nac yn hunanol, ond yr ydoedd yn un o'r dynion mwyneiddiaf, caredicaf a ffyddlon a welwyd erioed. Bu yn brif glerc yn chwarel Brynhafod-y-wern am flynyddoedd; ac yn y lle uchel a noethlwm hwnnw y cafodd yr anwyd a sefydlodd yn *bronchitis* arno, ac a'i cymerodd ymaith yn y diwedd. Enillodd ei addysg drwy lawer o anfanteision, ond yr ydoedd yn un o'r dynion mwyaf gwybodus a darllengar ellid gyfarfod. Cadwai i fyny a digwyddiadau bywyd yn wladol a chrefyddol; ac yr oedd ei olygiadau ar bob peth pwysig a ddigwyddai yn arddangosiad o feddwl clir a threiddgar yr ysgolhaig, a barn aeddfed yr athronydd. Bu am amser mewn ysgol yn Llundain, a mynychai y lleoedd hynny, pan gaffai gyfleustra, lle y dadleuid pynciau gwladol a chrefyddol yn gyhoeddus. Ehangodd hyn ei feddwl yn fawr, a gwnaeth ef yn hynod addfwyn a haelfrydig tuag at bawb a goleddent opiniynau gwahanol iddo ef. Yr oedd yn Fethodist selog, eto yn ddigon haelfrydig i gydnabod daioni a mawredd pob enwad crefyddol. Llawer gwaith y clywais ef yn canmol gwasanaeth yr Eglwys Sefydledig, a chrybwyllai am yr hen ficer Hughes o ardal Capel Curig, yr hwn ydoedd yn ddarllenwr rhagorol, ac yn wir hynod deimladwy. Dywedai y byddai perthnasau wylofus yr ymadawedig yn fynych yn gyrru yr hen ficer i wylo gyda hwy fel plentyn wrth ddarllen y gwasanaeth claddu, ac mai anfynych y gwelid golygfa fwy teimladwy ac effeithiol, na phan fyddai yr hen ficer yn darllen y gwasanaeth claddu, ar lan y bedd, a'r dagrau yn treiglo dros ei ruddiau.

Bu Wm. Griffith am flynyddoedd lawer yn athraw ffyddlon yn Ysgol Sul Jerusalem; ac yr oedd ei "ddosbarth sedd gongl" yn yr hen adeilad, y dosbarth mwyaf diddorol y cafodd yr ysgrifenydd y pleser o fod ynddo erioed. Yr oedd rhyddfrydigrwydd yr athraw, ei fwyneidd-dra a'i ostyngeiddrwydd yn tynnu pob disgybl llwfr ac egwan i lefaru yr hyn feddyliai, yn eofn; ac yr oedd arferiad y dosbarth y rhai gorau welais er coethi, gloywi a datblygu y meddwl. Nid oedd perygl i opiniwn un dysgbl ehedeg tu hwnt i gyraeddiadau meddyliol yr athraw, ac yr oedd ei haelfrydedd gymaint fel y croesawai bob opiniwn a barn, gan nad o ba gyfeiriad y delai. Yr oedd ei fedrusrwydd i gaboli a lliwio syniad anghoeth a dyeithr ambell ddisgybl arafaidd a gwreiddiol, yn rhyfeddol, ac yn un o'r pethau mwyaf diddorol yn y dosbarth. Yr oedd ei bresenoldeb hefyd yn ddigon i gadw pob dadl rhag torri dros derfynau priodol, yr hyn oedd weddus i'r addoldy a'r Ysgol Sul, ac yr oedd ei arferiad o eistedd fel canolwr rhwng y pleidiau, yn hytrach na chymryd rhan un blaid, yn rhoddi bywyd yn mhob dadl, ac yn enyn pob plaid i wneuthur eu gorau. Yr oedd ei wyleidd-dra naturiol yn rhwystr iddo gymryd rhan gyhoeddus mewn un symudiad pwysig; ond gwelais ef yn Ysgrifenydd Pwyllgor yr Eisteddfod, ac o dan yr angenrheidrwydd o ddarllen yn gyhoeddus anerchiad penigamp o'i eiddo i'r llywydd.

Nid oes neb ŵyr faint o ddaioni a wnaeth mewn modd distaw, tawel a dirgel. Cynigiodd unwaith roddi noson o bob wythnos i ddysgu cynifer o blant yr eglwys a ewyllysiant ddyfod yn nghyd ato, ac aeth atynt yn ffyddlon am flynyddoedd. Dewiswyd gramadeg yn faes astudiaeth gan y dosbarth, ac yr oedd ei fedrusrwydd fel athraw yn nghyd am amser mor faith i wledda ar seigiau mor sychion a di archwaeth ag a geir mewn gramadeg. Daeth y disgyblion yn fuan i'w garu fel cydymaith, fel cyfaill, neu fel tad, yn hytrach na'i ystyried yn ddim ond athraw; ac felly y parhawyd i'w garu hyd y diwedd.

Torrwyd yr ysgol i fyny pan ddaeth y disgyblion i'r Unol Dalaethau, dros bymtheg mlynedd yn ôl. Iddo ef y diolcha'r ysgrifenydd byth am yr ychydig ramadeg a ddysgodd erioed, ac y mae eraill eto yn byw yn y Talaethau Unedig ydynt yn gyffelyb ddyledus iddo, ac yn ddiau yn teimlo yr un mor ddiolchgar. Ni chlywais ef erioed yn gwneuthur araith gyhoeddus, ond yr oedd yr oriau a dreuliais yn gwrando arno mewn cwmni o bump i fyny i ddwsin, yn siarad ar seryddiaeth, athroniaeth, hanesiaeth Groeg, Rhufain, yr Aifft, enwogion Seisnig, enwogion Cymreig, enwogion Methodistaidd, hanes mynyddoedd ac afonydd Cymru – y cwm bach dinod yn Arfon, fel y Wyddfa, yn berffaith hyddysg iddo – hen aelwydydd, hen deuluoedd a hen gymeriadau yr ardal, a'i esboniad o darddiadau enwau Cymreig y fro, ayb., yn oriau dedwyddaf fy mywyd, ac yn rhai na ddisgwyliaf dreulio eu cyffelyb mewn diddordeb eto. Yr oedd ei feddwl wedi ei drwytho gyda phethau gorau llenyddiaeth Groeg, Rhyfain, Lloegr a Chymru; ac yr oedd er hynny yn Gymro pur a selog o'i goryn i'w sawdl, yn caru pob ysmotyn a llannerch o'i wlad, gan nad pa mor wyllt a llwm fuasai. Gwaith pleserus i mi yw traethu am ei rinweddau, ond rhaid ymatal, a cheisio sylweddoli, er mor anhawdd, ei fod yn awr yn dweud wrthyf:

"A thi fydd ar ddydd neu ddau
Yn y fynwent fel finnau."

Er iddo fod yn nychu yn hir, ni bu yn gorwedd ond am tuag wythnos. Gadawodd weddw a thri o blant i alaru ar ôl priod a thad nodedig am ei dynerwch a'i hawddgarwch. "Tad yr amddifaid a Barnwr y gweddwon" a fyddo yn dyner wrthynt a gofalus am danynt. Wedi i'r tristwch a'r galar cysylltiedig a'i farwolaeth basio ymaith, bydd yn gysur i'w weddw a'i plant gofio fod Wm. Griffith wedi gadael iddynt y trysor amhrisiadwy o enw da yn feddiant tragwyddol; fod ei gymeriad yn ddifrycheulyd, ei fywyd yn byr a llawn o rinweddau ac na ellir disgrifio ei oes yn well na thrwy ddwedyd iddo "fynd o amgylch gan wneuthur daioni." Gwnaeth ei ran, er yn wylaidd, eto yn ffyddlon, tuag at wella a dyrchafu ei oes a'i genhedlaeth; ac enillodd glod ac edmygedd pawb a'i hadwaenent. Fy ngweddi innau fyddo ar i mi allu dylyn ei esiampl ar-uchel, a gwynebu angau pan y delo, mor llawn o ddaioni a rhinwedd.

"Ei enw'n perarogli sydd,
A'i hun mor dawel yw."
Un o'r Hen Ddisgyblion"

(i'w barhau)

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

### Profedigaeth lem

Brawychwyd y gymuned amaethyddol a'r fro gyfan pan ddaeth y newyddion trist am farwolaeth disymwth Huw Ellis, gynt o Fferm Talybont Uchaf, ac yntau'n ddim ond 49 mlwydd oed.

Noel, Medi a'r teulu, a ffrindiau Huw i gyd, anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf atoch yn eich colled enfawr.

### Brysiwch wella

Mae Idris Thomas, 16 Dolhelyg, yn bur wael yn Ysbyty Gwynedd yn dilyn codwm yn ei gartref. Mae o wedi cracio asgwrn yn ei goes a mae ganddo haint ar ei frest. Brysiwch wella Idris! Mae'ch ffrindiau a'ch cymdogion i gyd yn cofio'n gynnes atoch.

Yr un yw'n dymuniadau i bawb o'r ardal sy'n cwyno mewn unrhyw ffordd. Dymunwn wellhad llwyr a buan i bob un ohonoch.



Penblwydd Enid yn 90

### Penblwyddi arbennig

Daeth teulu a ffrindiau o bell ac agos i gyfarch Enid Hughes, 3 Lôn Ddŵr ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed. Dydd Llun 20fed o Fawrth oedd y diwrnod arbennig, ond dechreuodd y dathlu ddau ddiwrnod yn gynt gydag aduniad y teulu yn Llandygai, yn nhŷ Janet ei merch. Yr oedd Enid fel brenhines yn eu canol. Enid, dymunwn iechyd da a phob bendith iti ar gyfer y blynyddoedd a ddaw.

Mae Dylan Hughes, 54 Bro Emrys, hefyd yn dathlu penblwydd arbennig y mis yma. Anodd credu dy fod wedi cyrraedd dy hanner cant, Dylan; mae'r blynyddoedd wedi hedfan fel y gwynt. Mwynha'r dathliadau !

### Llwyddiant

Llongyfarchiadau i dair o enethod hapus fydd yn mynd i Lanymddyfri ym mis Mai, i gystadlu efo Ysgol Garnedd yn Eisteddfod yr Urdd.

Bydd Mia, Bro Awel; Alexa, 12 Dolhelyg a Seren, 61 Bro Emrys yn cymryd rhan mewn nifer o gystadlaethau canu, llefaru a dawnsio.

Hwyl ar y cystadlu genod ond, yn fwy na dim, mwynhewch y cyfle i gyfarfod â phlant o bob rhan o Gymru, a chofiwch siarad efo nhw yn Gymraeg!

### Apêl

Bobl Talybont! Ydach chi'n chwilio am gyfle i gymdeithasu a chyfarfod â ffrindiau newydd? I ymlacio'n llwyr ar ôl diwrnod caled o waith ac anghofio'ch 'stress' i gyd?

Mae Côr Rygbi Gogledd Cymru wedi ail-ddechrau ymarfer o dan yr enw 'Pêrlais'. Maent yn estyn croeso cynnes iawn i aelodau newydd o bob llais ond, yn arbennig i'r tenoriaid a baswyr yn ein plith, ac ychydig mwy o sopranos. Yn ôl Rhian, ein Post-gludydd ddiwyd, sy'n aelod ffyddlon o'r Côr erstalwm, mae lleisiau'r altos yn o gryf.

Yr unig gymhwyster angenrheidiol, 'dybiwn i, ydi'r gallu i ganu mewn tiwn.

Felly, os oes gennych ddiddordeb, ewch i Glwb Rygbi Bethesda, lle mae'r Côr yn ymarfer am 7:30 bob nos Fercher.

Pob hwyl a llwyddiant iddynt i'r dyfodol!

## Nofwyr o fri

Pleser bob amser yw clywed am lwyddiant plant yr ardal ym myd campau: boed ar y caeau pêl droed a rygbi; yn y cylch paffio a'r pwll nofio, neu i ba bynnag cyfeiriad mae'u diddordebau a'u talentau yn eu harwain.

Mae Poppy Williams a'i chwaer Daisy, y ddwy yn aelodau o Glwb Nofio Bangor, wedi profi llwyddiant eithriadol yn ddiweddar.

Y mis diwethaf, enillodd Daisy saith o fedalau, 3 aur a 4 arian, tra'n cystadlu yn Llandudno; dipyn o gamp i blentyn ddeg oed!

Gwnaeth Poppy (11 oed) hefyd yn wych. Ar Ebrill 13eg, bydd hi'n cystadlu yn Abertawe, yn y Pwll Cenedlaethol, yn erbyn nofwyr gorau Cymru yn ei hoedran.

Fel ym mhob camp, ni cheir llwyddiant heb waith caled iawn. Mae'r ddwy yn hyfforddi am awr a hanner, bedair neu bum gwaith yr wythnos, cyn mynd i'r ysgol.

Eu rhieni balch yw David ac Angela Williams, Ffordd Aber, ond efallai bydd darllenwyr hŷn Talybont yn debycach o adnabod Nain a Taid, sef Rita a Brian Thomas, Bryn Celyn, Gatws.




## Capel Bethlehem

Oedfaon (am 2 o'r gloch)
Ebrill 23: Y Gweinidog.
Ebrill 30: Parchg. Eric Jones.
Mai 7: Trefniant lleol.
Mai 14: Y Gweinidog.
Mai 21: Parchg. Geraint Roberts.
Mai 28: Y Gweinidog

Croeso cynnes i bawb.

*Penblwydd Arbennig*
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Barbara Jones ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ar 7 Ebrill. Mae Barbara yn un o'r aelodau ffyddlonaf a mwyaf gweithgar sydd gennym yng Nghapel Bethlehem. Hi yw organyddes y capel ers llawer blwyddyn, ac iddi hi mae'r diolch ein bod wedi gallu cynnal Ysgol Sul lewyrchus am nifer o flynyddoedd cyn i bethau ddod i ben gyda dyfodiad y pandemig. Mae hi mor barod ei chymwynas, nid yn unig yn y capel, ond yn y gymuned ehangach hefyd. Rwy'n siŵr fy mod yn datgan teimladau a gwerthfawrogiad ardal gyfan wrth ddiolch iddi am ei hysbryd cymwynasgar. Pob hwyl ar y dathlu Barbara – hir oes iti!

## Eglwys St Cross

**Gwasanaethau** -Mae eglwys St Cross ac eglwys St Tegai yn cynnal gwasanaethau bob yn ail Sul am 11 o'r gloch: Sul 1af a'r 3ydd Sul yn y mis - St Cross; 2il a'r 4ydd Sul - St Tegai.

**Bore Coffi**
O'r diwedd, rydym am gynnal boreau coffi misol unwaith eto ar y bore Mawrth cyntaf yn y mis, yn dechrau ar Fai 2il am 10.30 yb.

**Cydymdeimlad**
*Huw Richard Ellis*
Yn sydyn ar 23ain Chwefror, yn 49 mlwydd oed, hunodd Huw Richard Ellis, mab Noel a'r ddiweddar Glenys Ellis, gynt o Fferm Tal-y-bont Uchaf , a brawd Medi a'r diweddar Ieuan. Symudodd Huw efo'r teulu i Langaffo, Sir Fôn, rai blynyddoedd yn ôl. Cynhaliwyd ei wasanaeth angladd yn Eglwys St Cross ar Fawrth 10fed dan ofal y Ficer, y Parchedig Ddr Gareth Lloyd, gyda Martin Brown, organydd Cadeirlan Bangor, wrth yr organ. Daeth cynulleidfa deilwng i'r gwasanaeth, a thraddodwyd teyrnged ar ran y teulu gan Rhodri - mab Medi - a oedd yn agos iawn at ei ewythr ers ei blentyndod. Mae cysylltiad y teulu â Thal-y-bont yn mynd yn ôl dros sawl cenhedlaeth, ac mae eu gwreiddiau yn ddwfn yn yr ardal. Felly, roedd yn naturiol i ddod â Huw 'adref.' Rhoddwyd ef i orffwys ym mynwent St Cross, lle mae ei fam, ei frawd Ieuan, ei ddwy fodryb, Enid Ogwen Roberts a Eirlys Ogwen Howden, a'i gefnder Dafydd hefyd wedi eu claddu. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys at Noel a'r holl deulu yn eu profedigaeth.

*Denys Martin Owen Davies*
Rydym hefyd yn cydymdeimlo ag Alys, Ros, Martin a Geraint, plant Denys Davies, Llanfairfechan, a fu farw yn 97 mlwydd oed ar Fawrth 1af yng Nghartref Nyrsio Bryn Marl, Cyffordd Llandudno. Roedd ei ddiweddar briod, April, a fu farw ym mis Hydref y llynedd, yn hanu o Seland Newydd. Cynhaliwyd gwasanaeth angladd Denys yn Eglwys Crist a'r Santes Fair, Llanfairfechan, ar Fawrth 30ain, dan ofal y Parchedig Tom Saunders, a rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent Eglwys St Cross ym medd ei rieni, John a Gwenonwy Davies. (Roedd John Davies yn Ddeon Bangor o 1941-1955, ac roedd Gwenonwy yn ferch i John Owen, Esgob Tyddewi 1897-1926.) Peiriannydd sifil oedd Denys, ac fe weithiodd ar draws y byd; mae ei blant yn cofio'r amser diddorol a chyffrous byddent yn eu cael yn teithio i wahanol wledydd efo'u rhieni. Ar ôl ymddeol, aeth Denys ac April i fyw yn Sbaen am ychydig o flynyddoedd cyn dod yn ôl i Gymru ac i Lanfairfechan i fyw. Cyn ei salwch blwyddyn yn ôl, roedd Denys yn dod yn rheolaidd i St Cross ar y Sul, ac mae gennym atgofion ohono fel dyn clên, dirodres a diddorol iawn.


**Elwyn Jones & Co**

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni* (01248) 723106
*Porthaethwy* (01248) 719517
*Benllech* (01248) 852782
*Caernarfon* (01248) 673616
*Pwllheli* (01758) 703000)

BYSUS
D. P. Owens
RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS


# PLANNU COED YNG NGARDD FFRANCON



Mae blagur ar y coed yn arwydd o ddyfodiad y gwanwyn, ac mae dathliad Gwledd y Gwanwyn yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi'i ysbrydoli gan Hanami, gŵyl flynyddol yn Siapan sy'n dathlu coed ceirios.

Fel rhan o'r dathliad eleni mae Siân Gwenllian AS wedi ymuno â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i blannu coed yng Ngardd Ffrancon, gerddi cymunedol a rhandiroedd Bethesda.

Yn ôl Siân: "Mae'n briodol iawn fy mod yn cymryd rhan mewn dathliad o fyd natur dair blynedd yn union ers dechrau'r pandemig.

"I gyd-fynd â'u hymgyrch, mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi amlygu ystadegau sy'n awgrymu bod 68% o bobl yn credu bod sylwi ar fyd natur wedi codi eu calonnau yn ystod y cyfnodau clo.

"Hefyd, mae 47% o oedolion yn honni eu bod yn fwy tebygol o dreulio amser ym myd natur ers y pandemig.

"Mae #GwleddyGwanwyn yn rhan o ymgyrch Natur i Bawb yr elusen, sy'n annog pobl i ymgysylltu â'r awyr agored, ac fel garddwr fy hun rwy'n ymwybodol iawn o fanteision byd natur.

"O les personol ein cyrff a'n meddyliau, i bwysigrwydd creu cynefinoedd naturiol ar gyfer bywyd gwyllt a'r rôl y mae coed yn ei chwarae wrth gyrraedd sero carbon net.

"Rwy'n falch iawn bod llawer iawn o'r mentrau llawr gwlad rwy'n ymweld â nhw yn Arfon yn chwarae rhan hollbwysig yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd."

# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE (07887624459)
henbarc13@gmail.com

**Cydymdeimlo**

Anfonwn ein cofion at deulu Bryn Eithin ar achlysur trist marwolaeth Albert Rees, Stad Coetmor, Bethesda, tad Marion a thad-yng-nghyfraith Kevin, a thaid hoffus a charedig y plant i gyd.

**Clwb Hanes Rachub**

Cafwyd cyfarfod difyr yn y Clwb Hanes yn ddiweddar yng nghwmni Mr Bryn Evans, Bron Arfon, oedd yn sôn am y traddodiad pysgota – neu 'foirio' yn yr ardal leol. Soniodd am y cyfoeth naturiol sydd gennym o'n hamgylch yma, yn lynnoedd ac afonydd gwych oedd yn llawn pysgod ar un adeg! Ond wrth gwrs, fe hawliodd yr Arglwydd Penrhyn y dyfroedd er mwyn iddo ef a'i ffrindiau cyfoethog gael pysgota ynddynt. Yn naturiol, roedd rhai o'r trigolion lleol yn rhoi cynnig ar 'botsio', ond roedd dirwy o £9 yn eu hwynebu pe cawsant eu dal, yn ogystal â cholli eu gwaith yn y chwarel. Yna, crëwyd 'Cymdeithas Genweirwyr Dyffryn Ogwen' pan gafodd y trigolion lleol hawl gan Penrhyn i bysgota rhannau o ddyfroedd yr ardal. Cymdeithas oedd hon oedd yn addysgu ei haelodau i ddefnyddio genwair, cawio plu a thaflu pluen yn gelfydd. Daeth Bryn â nifer o enweiriau a phlu i'w harddangos, a mawr oedd diddordeb yr aelodau ynddynt.

Yr hyn oedd yn wych oedd fod darlith Bryn wedi ysgogi trafodaeth ddifyr ynglŷn â rheolau, cystadlaethau, meintiau a lliwiau pysgod, pontydd a phyllau'r ardal. Roedd yr atgofion yn llifo, a hynny mewn Cymraeg graenus oedd yn orlawn o dermau gwych o'r byd pysgota. Roedd yn bleser cael gwrando ar y cyfan. Diolchwyd iddo ar ddiwedd y noson gan Mr. Einion Thomas, a gwerthfawrogwyd y cyfan gan y gynulleidfa. Diolch yn fawr iawn Bryn!

**Diolch**

Dymuna Helen Evans-Hughes, Gardd Eden, Rachub ddiolch i deulu, cyfeillion a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

**CLWB HANES**

Mary Jones fydd yn arwain noson nesaf y Clwb Hanes a hynny yn y Clwb Criced ar Nos Fercher, Ebrill 26 am 7.00 o'r gloch. Bydd yn trafod ei cholofn boblogaidd yn Llais Ogwan sef 'Iaith Pesda'. Mae yn awyddus i dderbyn hen eiriau, dywediadau a choelion sy'n bodoli - neu wedi eu hanghofio yn y Dyffryn. Mae'n siŵr fod yna lwythi ddywediadau a choelion yn ymwneud a'r tywydd yn yr ardal. Croeso i chwi ymuno â ni yn y Clwb Criced.

**Clwb Hanes Rachub a Llanllechid**

**Nos Fercher, Ebrill 26ain 2023**
am 7 o'r gloch yn y Clwb Criced
Bydd sgwrs gan **Mrs Mary Jones**
**'Iaith Pesda'**
CROESO CYNNES!

## Capel Carmel, Llanllechid

*Gwasanaethau (am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol)*
Ebrill 23: Gweinidog.
Ebrill 30: Parchg. Mererid Mair.
Mai 7: Gweinidog (Cymun).
Mai 14: Oedfa Cymorth Cristnogol.
Mai 21: Oedfa.

Ysgol Sul am 10.30yb.
Clwb Dwylo Prysur pob nos Wener am 6.30yh.

CROESO CYNNES I BAWB



**Cau'r ffordd yn sgwâr Rachub**
Am nifer o ddiwrnodau yng nghanol mis Mawrth caewyd y ffordd yn sgwâr Rachub gan Scottish Power, gan greu trafferth annisgwyl i lawer o bobl.

## Carmel Llanllechid

**Helpu Pobl Twrci a Syria**

Cynhaliwyd "Te Bach" arbennig i godi arian at helpu pobl sy'n dioddef o ganlyniad i'r ddaeargryn ofnadwy a fu yn Nhwrci a Syria. Diolch i bawb, yn aelodau a chyfeillion, am ddod i gefnogi. Mi gawsom ni gefnogaeth dda iawn. Diolch hefyd i'r rhai a oedd wedi dod i helpu wrth y drws, yn y gegin, ac ar y stondinau gwerthu i gyd. Derbyniwyd rhoddion o fwyd a phethau amrywiol i'w gwerthu ynghyd â rhoddion ariannol. Diolch i Fecws Popty, Cae Groes am y bara brith a'r cacennau cri. Diolch i Londis, Bethesda am rodd o ŵy Pasg anferthol at y raffl. Cyfanswm y gweithgarwch hwn oedd £600.

Ar fore Sul y 5ed o Mawrth cynhaliwyd Gwasanaeth Gŵyl Ddewi yng ngofal y plant a'r bobl ifanc. Roedd y plant yn rhoi darlleniadau ac yn canu yn hyfryd a'r bobl ifanc yn gwneud eu rhannau yn ardderchog hefyd. Mi gawsom ni i gyd, yn gynulleidfa o bobl a phlant a phobl ifanc, fendith o gydaddoli â'n gilydd. Cafwyd casgliad o £200 yn y gwasanaeth ac anfonwyd cyfanswm o £800 tuag at Apêl Twrci a Syria Cymorth Cristnogol.



Y plant a'r bobl ifanc yn y Sêt Fawr yn canu.

**Sul y Mamau**

Yn ystod yr Ysgol Sul, bu rhai o'r plant yn gosod tusw o flodau mewn llestr i ddweud diolch wrth eu mamau am ofalu amdanyn nhw bob amser. (Llun ar y clawr)

# YSGOL PENYBRYN AC YSGOL ABERCASEG

**Dathlu!!!**
Mae mis Mawrth yn fis o ddathlu camp disgyblion Penybryn ym myd chwaraeon. Yn wir, fe gipiodd Ysgol Penybryn y wobr efydd yng ngala nofio i ysgolion Eryri, a dyna beth yw camp allan o unarddeg o ysgolion. Rydym yn hynod falch o bob un ohonoch a nofiodd fel pysgod ym mhwll nofio Bangor.

Dathlu bu hanes tîm pêl-droed merched Penybryn a ddaeth yn fuddugol yng nghystadleuaeth pêl-droed Ysgolion Gwynedd,2023. Mae'r gwaith caled yn parhau wrth iddynt baratoi at gynrychioli Gwynedd yn y Drenewydd mis Mai. Pob lwc i chi genod, rydym yn edrych ymlaen at glywed am lwyddiannau'r tîm arbennig hwn.

Nid ydym ychwaith wedi anghofio am yr hogiau, a gystadlodd mor wych ym Mhlas Silyn yn ddiweddar gyda'r bel gron. Cawsant gemau hynod gyffrous, a chwaraeodd pawb yn wych. Llongyfarchiadau mawr i chithau yn ogystal.





**EISTEDDFOD YR URDD**
Braf oedd gweld unigolion o'r ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod Cylch Bangor/Ogwen yn ddiweddar. Bu rhai yn cystadlu gyda'r llefaru a'r canu, a daeth Llio o ddosbarth Tryfan yn drydydd yn y gystadleuaeth Llefaru Bl 3 a 4. Llongyfarchiadau mawr iddi, ac i bawb a gystadlodd ar y diwrnod.

Cipiodd Côr Ysgol Penybryn y drydydd wobr yn yr Eisteddfod Sir yn ogystal. Profiad arbennig i'r plant oedd canu ar lwyfan Theatr Bryn Terfel ym Mhontio. Hoffai'r ysgol ddiolch i Debbie Jones a Dafydd Roberts am eu gwaith o hyfforddi.

**Diwrnod y Gwalltiau Gwirion**
Roedd plant y ddwy ysgol yn gynnwrf i gyd ar ddiwrnod Trwynau Coch a phawb wedi mynd i ymdrech arbennig i greu gwalltiau gwallgof a gwirion. Diolch i bawb am yr ymdrech ardderchog. Roeddech yn werth eich gweld plant, a llwyddom i godi swm teilwng tuag at yr elusen bwysig yma.

**Diwrnod y Llyfr**
Braf iawn oedd croesawu'r holl blant i'r ysgol ar achlysur Diwrnod y Llyfr wedi gwisgo fel eu hoff gymeriad o lyfr yn o gystal â dod a'u hoff lyfrau i'r ysgol. Cafwyd hwyl yn defnyddio'r sgrin werdd er mwyn tynnu lluniau mewn 'llyfrgell' ffug a threfnu llyfrau o'r hynaf i'r fwyaf diweddar, yn nhrefn yr wyddor a hefyd eu pwyso er mwyn trefnu o'r llyfr ysgafnaf i'r trymaf.

**Postmon i weld Dosbarth Ogwen**
Fel rhan o waith y dosbarth ac i ddysgu mwy ar gyfer yr ardal 'Swyddfa Bost' roedd dosbarth Ogwen Abercaseg yn ffodus iawn yn ddiweddar o gael ymweliad gan Gerallt y Postmon. Roedd y plant wedi paratoi llith o gwestiynau ar ei gyfer ac wedi dysgu a mwynhau'n fawr.

**Cyflwyniad a phicnic Masnach Deg**
Diolch o galon i Mari, Gruff, Robin, Belle, Gwenno, Owain, Enlli, Mason, Jona a Raven, sef aelodau Ysgol Eco Abercaseg am gyflwyniad gwerth chweil yn esbonio pythefnos Masnach Deg a'n cyflwyno llwyth o wahanol cynnyrch Masnach Deg i gweddill y plant. Yn dilyn y cyflwyniad penderfynwyd gynnal 'Picnic Masnach Deg' ble roedd yr aelodau wedi paratoi amrywiaeth o gacennau i'r ysgol gyfan!



**Parêd Pasg**
Cafwyd diwrnod i'r brenin yn ystod yr wythnos olaf a phawb wedi mynd i ymdrech anhygoel ar gyfer ein Parêd Pasg. Braf iawn oedd gweld y neuadd yn orlawn gyda rhieni, neiniau, teidiau a ffrindiau yn dilyn 3 mlynedd o beidio gallu gwahanodd cynulleidfa i'r parêd. Diolch yn fawr i Marian Arman, Cadeirydd y Llywodraethwyr, am ei gwaith anodd iawn o feirniadu'r hetiau a diolch yn fawr iawn i'r holl rieni am eu cefnogaeth ar gyfer y pared yn o gystal â'u cefnogaeth drwy gydol y tymor.



## Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,**
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318)
carys16@hotmail.com

### Ysgolion Pentir

Mae cofnod mewn llyfr gan R.T. Jenkins bod un o ysgolion teithiol Gruffydd Jones, Llanddowror yn Eglwys Sant Cedol, Pentir yn y ddeunawfed ganrif. Roedd 66 wedi cofrestru yn yr ysgol yn 1750 gyda 45 yn 1751.

Mae hanes bod nifer o ysgolion bychan preifat yn yr ardal hefyd a bod y seryddwr Arfonwyson wedi mynychu un am gyfnod bychan. Rhaid peidio anghofio'r ysgolion Sul a gynhaliwyd yn Eglwys Sant Cedol ac yng Nghapel Pentir.

Yn 1816 agorwyd ysgol ddyddiol ym Mhentir wedi ei lleoli mewn adeilad nepell o'r eglwys, a dros y ffordd i efail Pentir. Ysgol Genedlaethol oedd hon a'r adeilad wedi ei rannu'n ddau, ystafell ddosbarth ar un ochr a chartref yr ysgolfeistr yr ochr arall.

Yn 1847 roedd 120 o fechgyn a genethod wedi eu cofrestru yn yr ysgol gydag un o'r enw David Thomas yn cael ei enwi fel ysgolfeistr. Erbyn 1871 mae'n amlwg bod yr ysgol wedi cau.

Arweiniodd Deddf Addysg 1870 yr awydd i sefydlu Ysgol Fwrdd yn yr ardal ar gyfer plant 5 i 12 oed. Dewiswyd safle yn Waen Pentir fel lleoliad, mae'n debyg oherwydd tyfiant ym mhoblogaeth Rhiwlas. Agorwyd yr ysgol ar ddydd Llun Mawrth 2, 1874, lleoliad presennol Ysgol Gynradd Rhiwlas.

Bu adeilad yr hen Ysgol Genedlaethol Pentir yn wag am gyfnod ond erbyn 1881 mae cofnod ei fod wedi ei addasu a'i rannu'n ddau dŷ. Mae'n dal i fodoli fel hyn hyd heddiw, sef Penlon a Craigfryn.

## Gair neu ddau – John Pritchard

# Gwyn eu byd

Mae Eisteddfod Ryngwladol Llangollen wedi tynnu nyth cacwn i'w phen trwy benderfynu gwared â'r arwyddair o waith y bardd T Gwynn Jones a ddefnyddiwyd ganddi ers 1946: 'Byd gwyn fydd byd a gano, gwaraidd fydd ei gerddi fo'. Ei dadl yw bod perygl i'r geiriau 'byd gwyn', o'u cyfieithu i'r Saesneg fel '*white world*' beri tramgwydd trwy awgrymu bod yr Eisteddfod yn hiliol. Wrth reswm bod angen gwylio rhag hiliaeth, ond mae'r penderfyniad hwn yn afresymol, gwrthun ac ynfyd.

Mae'n afresymol gan fod yr Eisteddfod o'r cychwyn wedi croesawu pobl o bedwar ban byd gan ddathlu eu cenedligrwydd a'u diwylliannau a'u hieithoedd. Mae'n afresymol hefyd am fod yr Eisteddfod o'r cychwyn cyntaf wedi arddel cyfieithiad yr awdur ei hun o'i eiriau: '*Blessed is a world that sings, gentle are its songs*'.

Mae'n wrthun am ei fod yn gwneud y Gymraeg yn ddarostyngedig i'r Saesneg. Y mae i'r gair 'gwyn' ystyr arbennig yn y cyd-destun hwn. Mae'n amlwg nad y lliw gwyn a olygir yma. Mae'r cyfieithiad '*blessed*' yn cyfleu ei ystyr o fewn yr arwyddair. Ond am fod perygl iddo gael ei gam gyfieithu i'r Saesneg (gan gyfieithwyr gwael neu beiriant cyfieithu diffygiol) mynnir fod rhaid ei wrthod.

Mae'n ynfyd am ei fod yn cyflawni'r union beth y mae'n honni ei osgoi. Wrth geisio bod yn gynhwysol a chofleidio amrywiaeth ac osgoi pob awgrym o hiliaeth, mae'r Eisteddfod yn trin y Gymraeg yn eilradd ac yn gwneud i'w siaradwyr fod â chywilydd o gyfoeth ac amrywiaeth ei geiriau a'i hymadroddion. O wared â'r arwyddair am y rhesymau a roddwyd, mae'r Eisteddfod yn dangos amarch ac anoddefgarwch, sef yr union bethau y mae'n honni bod yn awyddus i'w hosgoi.

Mor drist yw meddwl bod rhai am ein cyhuddo o fod yn hiliol am i ni feiddio dweud pethau sy'n gwbl ddealledig yn ein hiaith ein hunain ac nad oes iddynt arlliw o hiliaeth nac amarch at neb. Mor drist yw meddwl mai pen draw rhesymegol dadl yr Eisteddfod fyddai ein gorfodi hefyd i ymwrthod â rhai o adnodau mwyaf cyfarwydd a chyfoethog y Beibl. A fyddai unrhyw un call a rhesymol yn meddwl am eiliad ein bod mewn peryg o fod yn hiliol o adrodd adnodau fel y rhain?

'Gwyn ei fyd y sawl nad yw'n dilyn cyngor y drygionus nac yn ymdroi hyd ffordd pechaduriaid nac yn eistedd ar sedd gwatwarwyr, ond sy'n cael ei hyfrydwch yng nghyfraith yr ARGLWYDD ac yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos' (Salm 1:1-2).

'Gwyn eu byd y rhai sy'n dlodion yn yr ysbryd, oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd. Gwyn eu byd y rhai sy'n galaru, oherwydd cânt hwy eu cysuro. Gwyn eu byd y rhai addfwyn, oherwydd cânt hwy etifeddu'r ddaear' (Mathew 5:3-5).

Neu oes rhaid i ni roi'r gorau i ganu?
Yn dy law y mae f'amserau,
amser gwynfyd, amser croes ...'
'Rhosyn Saron yw ei enw,
gwyn a gwridog, teg o bryd ...'
'Gwyn a gwridog, hawddgar iawn,
yw f'Anwylyd ...'
'I Galfaria trof fy wyneb,
ar Galfaria gwyn fy myd ...'

## Eglwys Sant Cedol

### Te Bach

Prynhawn Mercher 1af Mawrth cynhaliwyd ein Te Bach misol i ddathlu gŵyl ein nawddsant. Roedd yn brynhawn llwyddiannus a hwyliog. Enillwyd gwobr gyntaf y raffl gan Nia, sef jam a *chutney*. Aeth yr 2il wobr i Alison, sef hamper o nwyddau Cymreig ac aeth y 3ydd wobr i Edmund, sef bocs siocled. Bu i Rosemary ennill y 4edd wobr, sef nifer o deisennau siocled bach. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Bydd y Te Bach yn cael ei gynnal ar brynhawn Mercher cyntaf o'r mis am 2 o'r gloch y prynhawn. Cynhelir y Te Bach nesaf ar y 3ydd o Fai. Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni am brynhawn hwyliog gyda phaned, teisen a sgwrs.

### Hamper Misol

Rydym yn cynnal Raffl Hamper Misol ar themâu gwahanol pob mis er mwyn codi arian i gynnal yr eglwys. Enillydd hamper mis Chwefror oedd David Williams, sef hamper 'Bora Coffi' yn rhoddedig gan Mair. Aeth yr 2il wobr, potel gwin i Alison Ellis. Enillydd hamper mis Mawrth oedd Bethan Jones, sef hamper 'Byd Natur' oedd yn rhoddedig gan Nia, David Williams enillodd yr 2il wobr, sef potel gwin.

Hoffwn ddiolch i'r aelodau, eu teuluoedd a'r teuluoedd estynedig am fod mor barod i brynu'r tocynnau raffl. Hefyd i'r aelodau a ffrindiau sydd wedi bod mor hael yn eu rhodd o'r haperi. Diolch o galon i chi i gyd.

### Bingo

Nos Wener y 24ain Mawrth cynhaliwyd noson Bingo yng Nghanolfan Glasinfryn er budd yr eglwys. Roedd yn noson hwyliog a llwyddiannus dros ben. Hoffem ddiolch yn fawr iawn am y rhoddion ac i bawb a fynychodd y noson am eu cefnogaeth.

### Gwasanaethau

Mae gwasanaeth pob Sul am 9.30yb. Mae croeso cynnes i bawb ymuno yn y gwasanaethau, gyda phaned a sgwrs i ddilyn.

### Manylion cyswllt

Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall yn ymwneud â'r eglwys, cysylltwch gyda'r Parchedig Dr Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Gweinidogaethol Bro Ogwen gareth.lloyd@cantab.net neu drwy ffonio 01248 361521. Cofiwch fod Nia (warden) 07719 918686 yna ichi os am unrhyw wybodaeth neu am sgwrs.

# YSGOL LLANLLECHID

**Tymor y Pasg**
Bu hwn yn dymor cymharol fyr o ran wythnosau, ond er hynny, daeth a'i sialensau; daeth Covid yn ôl i'n plith; cafwyd gweithredu diwydiannol, a bu'r ysgol ar gau am ddau ddiwrnod oherwydd cnwd o eira! Er hyn, cafwyd bwrlwm, a'r plantos wrth eu boddau yn elwa o gymaint o wahanol brofiadau! Dyma rai ohonynt:

Braint oedd croesawu Alistair James atom i neuadd yr Ysgol. Treuliwyd orig ddifyr iawn yn ei gwmni, yn canu a dawnsio, ac yn ei holi am y gamp o ennill Can i Gymru, a neges bwysig Alistair i'r plant oedd: dyfal donc! Ac wrth gwrs, roedd un dyn bach, Efan, wrth ei fodd yn croesawu ei ewythr talentog i'n hysgol!





Diolch i Mrs Sharon Owen a'i staff am y croeso twymgalon ym Mhlas Ogwen cyn y Pasg! Cafodd ein disgyblion fodd i fyw yn cyd-ganu emynau e.e. Calon Lan gyda'n ffrindiau yno – a'r trigolion wrth eu boddau. Profiad a hanner a dyma beth yw pontio'r cenedlaethau go iawn! Diolch i chi am eich cyfeillgarwch a'ch haelioni tuag atom.

**Eisteddfod yr Urdd**
Daeth cryn lwyddiant i'r disgyblion yn yr Eisteddfodau Cylch a'r Rhanbarth. Dyma ganlyniadau yr Eisteddfod Rhanbarth:
Côr Cerdd Dant – 1af
Ensemble Lleisiol Bl 4 a 5 – 1af
Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 2 ac iau – Efa Rhos Hughes, 3ydd
Llefaru Blwyddyn 5 a 6 – Nest Durrant, 2il
Ensemble Lleisiol Bl 6 – 2il
Côr – 3ydd

Llongyfarchiadau gwresog i'r parti llefaru hefyd, na ddaeth i'r brig y tro hwn, ond canmoliaeth uchel i chi. Diolch i Mrs Humphreys a Mrs Tegid am eich hyfforddi.



**Diwrnod Trwynau Coch a'r Eisteddfod Genedlaethol**
Gwnaethpwyd casgliad o £150 a rhannwyd yr arian gan roddi £75 at Apêl Eisteddfod Llyn ac Eifionydd a £75 i apêl y Trwynau Coch. Bydd yr Ysgol yn cynnal cyngerdd yn fuan yn nhymor yr haf, a bydd cyfran o'r elw hwnnw hefyd yn cael ei drosglwyddo tuag at Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd.

**Addysg Gorfforol a Chadw'n Heini**
Bu cryn brysurdeb yn ystod y tymor, wrth i'r disgyblion ymwneud â llu o weithgareddau gwahanol. Llawer o ddiolch i Emma Williams am ei chymorth, ac i Plas Ffrancon am y cydweithio hwylus. Cafwyd gemau pêl-droed lu, a'r disgyblion yn mynychu Clwb Chwaraeon gan Mr Stephen Jones a Miss Elin, yn wythnosol ar ôl ysgol. Da iawn hefyd ar eich llwyddiannau yn ystod y Gala Nofio.


post@llaisogwan.com

Dilynwch Llais Ogwan ar Trydar **@Llais_Ogwan**


## Cyngor Cymuned Llanllechid

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor Cymuned ar y 9fed o Fawrth yn Festri Capel Bethlehem, Talybont.

Daeth Ian Morgan o Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd i'r cyfarfod. Cafwyd sgwrs buddiol a difyr iawn am faterion priffyrdd o fewn plwyf Llanllechid.

Cytunwyd i wasanaeth clercio gan Partneriaeth Ogwen i'r Is-Bwyllgor Mynydd.

Ni dderbyniwyd ceisiadau cynllunio newydd.

Mae datblygiadau Cae Pêl-droed Talybont yn parhau. Trefnwyd cyfarfod gyda contractwr i drafod y cynlluniau.

# YSGOL DYFFRYN OGWEN



Mrs Durrell, Celyn Rhys, Lili Williams, Matilda Hanson a Mrs Owen

**CYNGOR DISGYBLION - DYDD GŴYL DEWI**

Cafodd 3 o ddisgyblion blwyddyn 7 y fraint o gael mynd i rannu newyddion a gwybodaeth i ddisgyblion Ysgol Penybryn a braf oedd gweld yr ymateb yno. Roedd disgyblion blwyddyn 3-6 yr ysgol wedi gwir fwynhau cwestiynu ein disgyblion am yr ysgol ac yn bwysicach fyth am y defnydd o'r Gymraeg. Cafodd bl5 y fraint o gael blas ar wers Lythrennedd gan Mrs Lowri Owen a gwych oedd eu hymateb.

**‘An Inspector Calls’**

Mae’r Adran Saesneg wedi mwynhau taith i Theatr Empire, Lerpwl i wylio testun TGAU, 'An Inspector Calls'. Y disgyblion wedi ymddwyn yn arbennig gyda'r perfformiad yn cryfhau eu dealltwriaeth o'r ddrama ac ysbrydoli sgyrsiau aeddfed iawn o ddylanwad y cyd-destun hanesyddol ar y llenyddiaeth! Da iawn Blwyddyn 11!



Y disgyblion yn Theatr Empire, Lerpwl

**Gweithdy**

Diolch i ‘Gwynedd Youth’ am drefnu gweithdy ‘Big Ideas’ i flwyddyn 9. Cafwyd prynhawn difyr a buddiol iawn a chyfle i gyfarfod a Myfanwy’r dylluan.



Sion Dafydd a Lucas yn mwynhau cwmni Myfanwy

**Cystadleuaeth Mathemateg**

Bu pedwar o ddisgyblion blwyddyn 9 yn cynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth mathemateg a drefnwyd gan GwE ym Mhrifysgol Bangor. Roedd y disgyblion wedi mwynhau datrys problemau amrywiol.

**Cynhadledd Mathemateg**

Cafwyd diwrnod ardderchog gan fathemategwyr dawnus blwyddyn 8 a 9 ym Mhrifysgol Bangor yn y gynhadledd Mathemateg a drefnwyd gan Raglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru. Roeddent wedi dysgu am *Doughnut economics*, solidau platonig a’r cysylltiad rhyfeddol rhwng mathemateg a jyglo!

**Gŵyl Llesiant Gwasanaeth Ieuenctid**

Mae blwyddyn 7 wedi cael profiadau gwych yn ddiweddar fel rhan o Ŵyl Llesiant Gwasanaeth Ieuenctid a diolchwn yn arw am y cyfleoedd a gawsant. Fe ddaeth heddwas i drafod materion gwahanol megis cam-fanteisio rhyw a defnydd diogel o'r we a gwefannau cymdeithasol. Bu gweithdy codio, a braf oedd gweld y disgyblion yn canolbwyntio a chydweithio i greu gwahanol ddelweddau. Trefnodd y Gwasanaeth Ieuenctid daith Bowlio 10 i Glasfryn ger Pwllheli, gweithdy logo. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr!



Bowlio 10 blwyddyn 7


C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Timber & Builders' Merchants

Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel

C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau yn Llangefni a Llanrwst.




Bethesda 01248 600 045

bethesda@cljonesltd.co.uk

**Ymwelwyr**
Fe groesawyd cynrychiolwyr o gangen banc HSBC Bangor i Ysgol Dyffryn Ogwen mis Mawrth, pan cynhaliwyd gweithdy ariannol gyda disgyblion blwyddyn 9. Y testun trafod o fewn y gweithdy ariannol oedd pwysigrwydd diogelu wrth brynu o'r We a'r gwahaniaeth rhwng cyfrifon.

Cafwyd profiad 'cŵl' yng nghwmni y Welsh Whisperer yn ddiweddar, dyma eiriau'r disgyblion! Cafodd pob disgybl blwyddyn 7 gyfle i recordio podlediad Cymraeg er mwyn cyfrannu i raglen 'Radio Dyffryn Ogwen'. Mae'r podlediadau werth eu clywed!



Welsh Whisperer gyda disgyblion blwyddyn 9

**Pêl rwyd Blwyddyn 7-8**
Ymdrech dda gan yr holl chwaraewyr yn y gemau pêl rwyd yn erbyn Ysgol Syr Hugh Owen. Roedd dyfalbarhad i'w canol a llongyfarchiadau i Celyn Rhys blwyddyn 7, ac Angharad Ball blwyddyn 8, am gael eu dewis fel chwaraewyr y gêm. Gwych genod!



**TWRNAMENT CRICED**
Merched blwyddyn 9 a 10 wedi chwarae yn dda iawn yn nhwrnament criced Gogledd Cymru. Gemau agos!! Y genethod wedi colli dwy gêm ac ennill un.

Diolch i Millie Forte am arwain yn hyderus a chael seren y gêm i flwyddyn 10 ac i Cari Davies am gael seren y gêm i flwyddyn 9.

Dilynwch Llais Ogwan ar Trydar
**@Llais_Ogwan**

## Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**, (352966)
mairpenybryn@gmail.com

**Cylch Glasinfryn**
Cyfarfu Cylch Glasinfryn i ddathlu cinio Gwyl Dewi yn y Ganolfan am hanner dydd ar 8 Mawrth. Daeth yr aelodau ac amrywiaeth o fwydydd blasus a diodydd a fwynhawyd gan bawb. Wedi'r gwledda cawsom amser difyr yn sgwrsio a hel atgofion am yr hen Fangor, cymaint o'r siopau oeddem yn eu cofio wedi hen fynd. Cyhoeddwyd fod Opera, "Y Bont", yn Pontio ar 1 Ebrill, mae'r Libreto gan un o'n aelodau, Marian Bryfdir. Enillwyd y raffl gan Mair a Doreen, rhoddedig gan Jocelyn.


Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 12 Ebrill pryd y disgwylir John Hywel atom i siarad am "Meddyg Esgyrn Môn" ac yna edrychwn ymlaen at sgwrs gan Tomos Jones o Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ar "Blanhigion sydd yn goresgyn ein gerddi a'r effaith a'r yr amgylchfyd" ar 10 Mai am 2yp. Croeso cynnes i bawb.

**Y Ganolfan**
Mae'r llenni newydd yn eu lle ac yn edrych yn arbennig o dda! Rhai sydd yn hawdd iawn i'w defnyddio a chadw'n lân! Mae'r diolch am ein galluogi i'w prynu yn mynd i Gyngor Cymuned Pentir a roddodd nawdd o £300 ac i'r criw ffyddlon Bingo sydd wedi cynnal tair sesiwn, (ac un i ddod!) i wneud y cyfanswm o £1,000 i fyny, ardderchog yn wir. Mae ein diolch yn arbennig i Ann Williams a'i merch Dawn am drefnu a chasglu y gwobrwyon ac i bawb sydd yn cefnogi a chyfrannu at y nosweithiau Bingo. Bydd y Bingo nesaf ar 24 Ebrill am 7yh, cofiwch fod croeso cynnes yn eich disgwyl a chewch hwyl a chymdeithasu!

**Barry Sanderson**
Bu farw Barry Sanderson, 4 Waen Wen ar 14 Mawrth, yn Ysbyty Gwynedd ac yntau yn 86 mlwydd oed. Un o Fangor oedd Barry a chafodd ei addysg yn Ysgol Friars a'r Brifysgol lle gafodd radd mewn mathemateg. Symudodd i fyw i Waen Wen o Dal y Bont rhai blynyddoedd yn ôl ac yn fuan yr oedd wedi cymryd rhan ym mywyd yr ardal gan ymuno â Phwyllgor y Ganolfan a'r Grŵp Arlunio, lle bu'n Drysorydd. Yr oedd Barry yn ŵr tawel a boneddigaidd gyda hiwmor arbennig yn perthyn iddo. Bu'r angladd yn yr Amlosgfa ym Mangor ar 30 Mawrth. Cydymdeimlir a'i weddw Anne a'i ddwy ferch Fiona a Faye a'r teulu i gyd yn eu hiraeth a'u colled.

46ed
SIOE AMAETHYDDOL
DYFFRYN OGWEN

DYDD SADWRN
3 MEHEFIN 2023
CAEAU RYGBI BETHESDA



ADRAN CARTREF
CEFFYLAU / DEFAID / CWN
MABOLGAMPAU
CERBYDAU AC OFFERYNAU HANESYDDOL
STONDINAU / ADLONIANT
www.sioedyffrynogwen.co.uk

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

## FESTRI CARMEL



Cynhelir
TE BACH
**Dydd Llun, 24 Ebrill**
2.30 – 4.00

Croeso i bawb.

## CANOLFAN CEFNFAES

### Gyrfa Chwist

Ebrill 25
Mai 9, 23 a 30
am 7 o'r gloch.

Croeso i bawb

## CANOLFAN CEFNFAES

### Bore Coffi Cymorth Cristnogol

**Sadwrn,13 Mai 10.00 – 12.00**
Mynediad: £1.00

## Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

Nos Fercher, 26 Ebrill
am 7 o'r gloch yn y Clwb Criced
Bydd sgwrs gan

### Mary Jones
### Iaith Pesda

Hefyd
Nos Fercher, 17 Mai
Clwb Criced am 7 o'r gloch

### Trystan Lewis

Yn cyflwyno sgwrs ar
Edward Stephen, Tanymarian

CROESO CYNNES!

## FESTRI JERUSALEM

### Bore Coffi'r Gymdeithas

**Sadwrn, 29 Ebrill**
10.00 – 12.00
Mynedid: £1.00

## CARNIFAL BETHESDA

Cynhelir
### Seremoni Coroni
yn
Ysgol Dyffryn Ogwen
**Nos Wener, 12 Mai**
am 6 o'r gloch

## DYDDIADUR BOREAU COFFI

**2023**
29 Ebrill – Festri Jerusalem - Cymdeithas Jerusalem
13 Mai – Cefnfaes – Cymorth Cristnogol
17 Mehefin – Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen.
24 Mehefin – Cefnfaes – Cronfa Goffa Tracy Smith.
08 Gorffennaf – Cefnfaes – Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.
16 Medi – Cefnfaes – Plaid Cymru Dyffryn Ogwen
23 Medi – Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen
14 Hydref – Cefnfaes – Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen

**Pwysig**
*Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).*



## GŴYL HINSAWDD

Bydd gŵyl newid hinsawdd yn digwydd ar Fai 1af 2023, yn Llys Dafydd a Neuadd Ogwen, Bethesda, am 10yb-4yh. Mae croeso i deuluoedd, ac mae'n rhad ac am ddim i fynychu.

Mae Cynulliad Hinsawdd Dyffryn Ogwen (a gafodd eu hwyluso gan GwyrddNi) wedi bod yn cyfarfod ers Mehefin 2022 gyda'r pwrpas o ddysgu am yr argyfwng newid hinsawdd, ei effaith ar ein ardal lleol a dylunio cynllun gweithredu i gyfeirio at gwydnwch hinsawdd Dyffryn Ogwen. Nod yr ŵyl yw ysbrydoli a hysbysu pobl o bob oedran am yr angen brys i weithredu.

Bydd yr ŵyl yn cynnwys gweithgareddau i blant, siaradwyr, stondinau a lluniaeth. Bydd teuluoedd yn cael y siawns i gymryd rhan mewn gemau addysgiadol a chwarae creadigol, i ddysgu am effeithiau lleol newid hinsawdd a beth y gellir ei wneud i hyrwyddo a chreu arferion byw cynaliadwy.

Bydd sawl siaradwr arbenigol yn bresennol yn yr ŵyl, yn ymdrin â phynciau fel Gwyddor Hinsawdd, trafnidiaeth gynaliadwy, ynni adnewyddadwy, cadwraeth bioamrywiaeth a gweithredu lleol. Bydd mynychwyr yn cael cyfle i ymgysylltu â'r siaradwyr a gofyn cwestiynau am sut i leihau eu hôl troed carbon a byw bywyd fwy cynaliadwy.

Yn ogystal, bydd amrywiaeth o stondinau ar gael, yn cynnig gwybodaeth am fentrau amgylcheddol lleol. Bydd teithiau tywys i Gynllun Hydro Ynni Ogwen a ddarperir gan gerbydau trydan cymunedol Partneriaeth Ogwen. Bydd lluniaeth yn cael ei ddarparu hefyd, gyda phwyslais ar opsiynau o fwydydd sy'n seiliedig ar blanhigion, lleol ac organig.

Mae'n argoeli i fod yn ddigwyddiad hwyliog, addysgiadol ac ysbrydoledig i bawb sy'n mynychu.



# Côr y Penrhyn

## gyda Derfel Roberts




**Caleb yn cathlu yn Henllys ac Ilid yn disgleirio ar y piano**

Ynghanol Mis Mawrth tyrrodd pobl o bob rhan o Ynysoedd Prydain i Neuadd yr Henllys ym Miwmares i wrando ar Gôr y Penrhyn yn perfformio rhaglen eang o ganeuon hen a newydd.

Nid oedd Frances Davies, ein cyfeilydd sefydlog ar gael ond gobeithia'r aelodau ei gweld yn ôl yn fuan. Yn ei habsenoldeb hi, daeth Ilid Anne Jones o Fôn atom i ganu'r piano. Mae Ilid wrth gwrs yn enw ac yn wyneb cyfarwydd i bawb sy'n dilyn cyngherddau a pherfformiadau cerddorol Cymraeg yng Nghymru. Mae ganddi ddawn neilltuol gyda cherddoriaeth a dawnsiai'r nodau'n ysgafn a bywiog oddi ar ei bysedd wrth iddi gyfeilio i ni. Mae pwyllgor ac aelodau Côr y Penrhyn yn dymuno mynegi eu diolchgarwch i Ilid am ei chyfraniad nodedig i lwyddiant y noson.

Yn y cyngherddau hyn bydd cyfle i aelodau'r côr berfformio fel unawdwyr ac mae Raymond Roberts, John Outram, Hywel Thomas a Tom Williams wedi cyflawni gwaith gorchestol dros y blynyddoedd. Diolch iddyn nhw, mae rhaglen y côr yn cynnig amrywiaeth o donau ac alawon mewn sawl iaith ac mae gwerthfawrogiad y cynulleidfaoedd yn Henllys yn cael ei arddangos yn y niferoedd sy'n eu mynychu, rai ohonynt yno am y pedwerydd neu'r pumed tro.


Caleb Rhys Jones.

**Gwledd**

Fodd bynnag, y tro hwn cawsant gynnig gwledd o gyflwyniad gan Caleb Rhys o'r Gerlan gyda'i lais bariton cyfoethog a'i bersonoliaeth gynnes. Mae Caleb, fel y gŵyr pobl Dyffryn Ogwen, wedi astudio cerddoriaeth o dan Owain Arwel yn Ysgol Tryfan ac yng Ngholeg y Brifysgol Bangor. Graddiodd mewn miwsig gyda phwyslais ar ganu, ac yna aeth i Brifysgol Lerpwl i astudio'r grefft o ganu ymhellach.

Ers y dyddiau hynny, mae Caleb wedi gweithredu fel hyfforddwr lleisiol i'r côr ac wedi datblygu fel cantor soniarus a medrus ei hunan. Roedd gwrando arno'n canu'r hen ffefryn, '***Aros Mae'r Mynyddau Mawr'*** gyda'r geiriau o waith Ceiriog a'r alaw gan Meirion Williams o Ddyffryn Ardudwy yn brofiad gwefreiddiol. Mynegodd sawl aelod o'r côr a'r gwrandawyr eraill eu bod yn edrych ymlaen at ei glywed yn perfformio eto. Meddai Arwel Owen o Lanfairfechan, "Brysied y dydd pan welwn ni Caleb yn mynd â'r rhuban glas yn ein prifwyl".

"Amen i hynny," oedd ymateb yr aelodau eraill.

**Aled yn ein rhoi ar waith**

Mae Côr y Penrhyn yn ffodus iawn bod gennym aelodau sy'n fodlon rhoi o'u hamser a'u doniau i gynorthwyo pan fo angen. Un o'r rheiny ydy Aled Williams o Lanfairfechan. Mae Aled yn gyfeilydd ac yn gantor o gryn allu a bu'n hyfforddi'r adran bas mewn ymarfer yn Ysgol Llanllechid ychydig yn ôl.

Byddai Caleb Rhys wedi ysgwyddo'r baich fel arfer ond gan nad oedd o ar gael daeth Aled i'r bwlch. Dysgwyd llinellau'r bariton a'r bas mewn amser byr iawn pan gyflwynwyd darn newydd o'r enw ***Oleuni Bendigaid Duw*** *(cyfieithiad Menai Williams)* i'r côr yn yr ymarfer hwnnw.

**Huddersfield**

Gydag ymweliad â'r dref yng Ngorllewin Swydd Efrog ar y gweill yn nechrau Ebrill, gobeithir rhoi adroddiad am y cyngerdd a gafwyd yno yn y rhifyn nesa'. Hwn yw'r tro cyntaf i Gôr y Penrhyn ymweld â'r lle ac mae'n dilyn ymweliad Côr Merched Marsh o ardal Huddersfield â Bethesda pan fuont yn canu gyda ni yn Eglwys Glanogwen.

# Cymeriadau'r Côr

Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Ian Jones sy'n canu efo'r tenoriaid cyntaf.

**Be' ydy dy enw llawn?** Ian Jones
**Oed?** 61
**Gwaith** Hunangyflogedig
**Lle wyt ti'n byw?** Glasinfryn, Bangor
**Un o le wyt ti'n wreiddiol?** Bangor
**Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?** Doniol , hapus a chogydd da
**Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr** Tua 5 mlynedd
**Pa lais wyt ti?** Tenor 1
**Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Pan oeddwn yn blentyn, roedd gan fy nhad dâp neu recordiad o Gôr y Penrhyn, a meddyliais ryw ddydd y byddwn i'n hoffi canu gyda nhw.
**Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** Fy hoff gân ydy, **O Gymru**, (Rhys Jones/ Leslie Harris) ac yn ail, ***Bring him home*** **(**Les Miserables**)**
**Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?** Jim Reeves, y canwr gwlad Americanaidd enwog.
**Beth ydy dy farn di am ganu pop?** Gallaf ei gymryd neu ei adael
**Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr?** Canu yn Stadiwm y Principality cyn y gêm rygbi rhyngwladol rhwng Cymru ac Ariannin yng Nghaerdydd
**Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** Dwi'n pobi cacennau a peis i'r hogiau o dro i dro pan fyddwn ni ar daith efo'r côr. Hefyd dwi'n hoffi gwaith saer
**Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** Rwy'n hoffi gweld y côr yn diddanu pobl a does dim i guro'r ymateb ar wynebau'r gynulleidfa pan fyddan nhw wedi mwynhau rhyw berfformiad neilltuol. Felly, parhau i ganu, diddanu a denu gwrandawyr hen a newydd ydy'r nod bob amser.



**Unrhyw sylw arall yn ymwneud â'r côr?** Cyn i mi ymuno â'r côr mi gollais i rai aelodau o'r teulu i ganser. Ers ymuno dwi hefyd wedi colli teulu i hunanladdiad ac mae dod i gôr bob nos Lun yn codi calon ac ysbryd dyn. Dylai aelodaeth o gôr fod ar bresgripsiwn.

# YSGOL TREGARTH

**Dathlu Diwrnod y Llyfr**

I ddathlu diwrnod y llyfr, cafodd blant Ysgol Tregarth gyfle i wisgo i fyny fel cymeriad o'u hoff lyfr. Roedd pawb wrth eu bodd yn cael cyfnewid y wisg ysgol arferol am ddillad dynion tân, tywysogesau, pêl droedwyr a phob math o wisgoedd eraill.



**Gweithdy HSBC**

Diolch i Adrian a Bev o HSBC am wneud gweithdy cyllideb a rheoli arian gyda blwyddyn 5 a 6. Bu'r plant yn dysgu pa mor bwysig yw cyllidebu yn ogystal â meddwl am ffyrdd i arbed arian a sut i wneud penderfyniadau ariannol cywir. Cawsom wneud hyn mewn ffordd hwyliog wrth wneud gweithgareddau ymarferol, trafod syniadau gyda'n gilydd a gwneud 'tiktok walk'! Braf oedd clywed holl syniadau, atebion a chwestiynau gwych drwy gydol y gweithdy.





**Cystadleuaeth Gymnasteg**

Llongyfarchiadau enfawr i Judah Parry o ddosbarth Ffrydlas a lwyddodd i ddod yn ail fel rhan o'i dîm yn gystadleuaeth gymnasteg 'Welsh School Championships' yn Abertawe. Rydym yn falch iawn o dy lwyddiant Judah!

**Hanner Marathon Ynys Môn**

Rydym yn falch iawn o Kayla o ddosbarth Ffrydlas a gymerodd ran yn ras 'Dragons Dash' yn ystod hanner marathon Ynys Môn ar ddechrau'r mis. Da iawn ti Kayla!






**CYSTADLEUAETH PÊL-DROED**

Cafodd cystadleuaeth pêl-droed ei drefnu gan yr Urdd draw yng nghaeau Treborth yn ystod yr hanner tymor yma. Roedd dros 20 o ysgolion yn cystadlu i gyd ac yn brofiad gwych i blant yr ysgol gystadlu yn erbyn ysgolion o'r sir. Daethom yn erbyn ysgolion o safon uchel yn ein grŵp ac yn anffodus, ni lwyddodd y tîm i orffen yn un o'r ddau uchaf yn y grŵp i fynd ymlaen i'r rowndiau nesaf. Pawb wedi mwynhau'r profiad a chael cyfle i gynrychioli'r ysgol mewn cystadleuaeth unwaith eto.

**Diwrnod Trwynau Coch**

Wel am ddiwrnod arbennig oedd Diwrnod Trwynau Coch yn Ysgol Tregarth! Bu'r Cyngor Ysgol yn brysur iawn yn addurno'r ysgol ar gyfer yr achlysur gyda 'bunting' a phosteri. Hefyd, penderfynodd y cyngor ei fod yn syniad da i bawb wisgo pyjamas ac i gynnal sioe dalent yn ystod y prynhawn. Roedd llu o dalent hyfryd i'w weld. Llongyfarchiadau i grŵp canu blwyddyn 5 a 6 am ddod yn drydydd, i Robin ac Ifan am ddod yn ail gyda'u sgets gomedi ac i Stephan a ddaeth yn fuddugol wrth chwarae'r piano. Diolch i bawb wnaeth gystadlu am eu holl ymdrech!



**Gweithdy Beics Ogwen**

Diolch yn fawr i aelodau gweithgar o bartneriaeth Ogwen ymuno hefo ni ar gyfer cynnal gweithdy beicio gyda disgyblion dosbarth Tryfan. Roedd y plant wrth eu boddau yn dysgu sgiliau bywyd newydd a magu hyder. Roedd hi'n braf clywed dealltwriaeth y plant am bwysigrwydd beicio, eu brwdfrydedd am feicio a'r gallu i drafod manteision beicio ar yr amgylchedd a'r corff. Os oes dwll yn eich olwyn neu os oes angen help i drwsio cadwyn eich beic, dewch i ofyn i fecanyddion ein dyfodol! Gyda'r gwanwyn ar y gorwel, gobeithiwn bydd llawer o'r disgyblion yn teithio ar gefn beic neu'n cerdded i'r ysgol er mwyn gwneud gwahaniaeth.



**Technocamps**
Cafodd plant bl. 3 i 6 hwyl mewn gweithdai grymoedd gan Technocamps. Bu dosbarth Tryfan, Ogwen a Ffrydlas yn brysur yn adeiladu cerbydau gyda lego, gwneud ymholiad gwyddonol wrth fesur ac archwilio i weld beth oedd yn digwydd pan roeddent yn ychwanegu neu newid rhywbeth ar eu cerbyd. Dangosodd pob disgybl frwdfrydedd ac ymroddiad drwy gydol y bore. Diolch i Alex o Technocamps am y profiad gwerthfawr.

**Welsh Whisperer Blwyddyn 6**
Roedd hi'n fraint cael croesawu'r Welsh Whisperer yn ôl i'r ysgol i recordio rhaglen radio yn nosbarth Ffrydlas. Braf oedd clywed y plant yn lleisio'u barn am yr ysgol ac yn trafod y profiadau gwerthfawr maent yn ei gael yn Ysgol Tregarth. Pawb wedi mwynhau bod yn gyflwynwyr radio am y diwrnod!

**"Bake Off" Pasg**
Hoffem ddiolch yn fawr iawn i gymdeithas rhieni ac athrawon Ysgol Tregarth am drefnu a chynnal cystadleuaeth coginio cacen ar y thema 'Y Pasg' yn ddiweddar. Ar ôl y beirniadu, roedd gwledd yn aros am y rhieni dros baned yn neuadd yr ysgol. Casglwyd dros £420 i'r ysgol. Diolch yn fawr iawn i rieni a disgyblion yr ysgol am baratoi a choginio yr holl gacennau / bisgedi, prynhawn llwyddiannus dros ben.

**Sesiynau Ymarfer Corff gyda'r Urdd**
Mae dosbarth Idwal, Llywelyn a Tryfan yn ffodus iawn o dderbyn sesiwn chwaraeon gyda Jordan o'r Urdd yn wythnosol. Mae'r plant wedi datblygu amryw o sgiliau a magu hyder dros gyfres o sesiynau. Mae plant dosbarth Tryfan, a finnau, yn edrych ymlaen am ddydd Mercher. Diolch Jordan am ysbrydoli'r plant, magu eu hyder a'u cynorthwyo i fod yn ddysgwyr iach, hyderus.

**Boreau Agored**
Yn newydd ar gyfer 2023, mae'r ysgol wedi cynnal sesiynau 'Dosbarth Agored' yn ystod yr hanner tymor diwethaf. Bu'n gyfle i rieni, gwarchodwyr, neiniau a theidiau ddod i mewn i'r dosbarth gyda'u plentyn er mwyn dangos a thrafod eu llyfrau, dathlu llwyddiannau a thrafod yr hyn maent yn falch ohono. Bydd y 'Dosbarthiadau Agored' yn digwydd yn rheolaidd er mwyn annog y plant i drafod eu gwaith ac ymfalchïo yn yr hyn maent yn gweithio'n galed arno pob dydd.


Cegin Karen
Cacennau, Peis a Sawrus
Te Prynhawn a Bwffe ar gael
@CeginKaren Tel: 07886 560781
Ebost / Email: ceginkaren@btinternet.com


# Iaith Pesda

## gan Mary Jones

**Dydd Llun Golchi**
Mae'n debyg bod y peiriant golchi dillad ymlaen llawer gwaith mwy nac unwaith yr wythnos yn ein cartrefi y dyddiau hyn! Yn nyddiau di-beiriant fy mhlentyndod a chryn amser cyn hynny un diwrnod oedd i olchi a hwnnw oedd dydd Llun. Un o fy nghas bethau pan adra ar wyliau ysgol oedd dydd Llun gwlyb gan y byddai dillad gwlyb a thamp yn hongian ym mhob twll a chornel. Cofiaf y 'pren golchi' yn y sinc a lwmp o sebon a'r dillad yn cael eu rhwbio a'i rhwbio arno. Byddai sosbenni mawr yn llawn llieinia a ballu yn berwi ar y stôf. Ar ôl hynny y gwaith rinsio i gael y sebon allan ac wedyn i'r sied i'w rhoi drwy'r 'mangl' cyn eu hongian ar y 'lein ddillad' yn yr ardd. Byddai'n rhaid sychu'r lein gyntaf rhag bo huddug arni. Dau biler llechen fel arfer oedd pyst y lein ddillad. Cofiaf hefyd i 'liw glas' gael ei ddefnyddio er mwyn gwynnu dillad a choleri gwyn. Cofiaf i mam gael boilar am y tro cyntaf ac roedd hwnnw yn ysgafnhau y gwaith.

Wedi'r sychu roedd yn rhaid 'smwddio' popeth, hyd at yr hances boced olaf. 'Fflat' oeddem ni'n alw'r teclyn smwddio er mai 'hetar' oedd eraill yn ddweud. Yna'r gwaith o 'eirio'r' dillad. Dywedwyd bod dillad tamp yn gallu achosi 'cricmala' (crud y cymalau). Petae chi'n eirio dillad yn rhy agos at y tân roedd beryg iddy nhw 'ddeifio' sef mynd yn frown fel petaent yn dechrau llosgi. O ble daw y gair 'deifio' sgwn i! Na doedd dydd Llun golchi gwlyb ddim yn hwyl i ni'r plant achos byddai mam yn flin hefyd, a phwy all feio'r merched druan.



**Llian** Mae sôn am ferwi cadachau a llieiniau wedi gwneud i mi feddwl am y gair 'llian'. Wrth sychu llestri 'llian sychu llestri' fydda i'n ddefnyddio, ac wrth sychu fy hun ar ôl 'molchi yna 'llian', ond erbyn hyn mae newid wedi dod a'r gair 'tywel' neu 'twal' wedi dod yn arferol, o'r gair Saesneg 'towel' . Mae gen i dri cadach hefyd 'cadach llawr', 'cadach llestri' a 'chadach gwlanan'.

**Siarad heb lawer o symud**
Y tro diwethaf cafwyd rhestr o eiriau ac ymadroddion yn disgrifio dweud pethau di-synnwyr neu anghywir. Dyma i chi un arall sy'n cael ei ddefnyddio'n bur aml: "Paid a siarad drwy dy het!"

**Bod mewn Trafferthion**
Pan fydd pethau yn mynd yn rhwydd, mae gynnon ni lawer iawn o eiriau ac ymadroddion i fynegi gwahanol graddau o broblemau: 'mynd o chwith', 'trafferth', 'trwbwl', 'helynt', 'ffwdan', 'llanast', 'strach', 'helbul', 'stryffîg', 'halibalŵ'. Dywediadau eraill a glywir pan fo pethau wedi mynd o chwith ydi "Ew, mae 'na le 'ma"; "Mae nhw wedi gwneud poits o betha – poitsi poits go iawn!", "Wel, mi aeth hi'n fflemp!"; "Mae hi mewn twll rŵan"("uffarn o dwll" os bydd y sefyllfa yn fwy difrifol.); "Mae o yn ei chanol hi rŵan!"; "Mae nhw mewn bydoedd"; "Mae hi mewn dwr poeth rŵan!"; "Mae nhw wedi bod yn y dyfroedd mawr a'r tonnau!" a "Mae nhw wedi bod trwyddi."

**Te gwan**
Os gawn ni banad o de gwan mi ddwedwn ni fod y te " 'run fath a piso bronwen." Anifail bychan efo corff hir main ydi bronwen. Enw arall arno fo ydi gwenci. Beth yw'r dywediadau am de cryf! Rhowch wybod.

**Ynganu**
Tydi hi'n sut mae iaith yn amrywio o ardal i ardal. Nid yn unig geiriau gwahanol – geiriau tafodieithol – ond y ffordd ryda ni'n dweud – yn ynganu – rhai llythrennau mewn geiriau cyffredin. Dyma i chi rai: 'Sysnaig', 'Susnag', 'Susnaig' a 'Seusnag' medda ni am 'Saesneg', ac mi ddwedwn ni 'bysaidd', 'gwarthaig', 'pymthaig', 'merchaid', 'pryfaid.' Ryda ni hefyd yn dweud 'afol' am 'afal' a 'mowr' am 'mawr'. Fedrwch chi feddwl am ragor?

**Myrath**
Dyna i chi air od. Dydw i ddim am gynnig eglurhad yma, ond gofyn a fyddwch chi'n defnyddio'r gair ac ym mha fodd.


Anfonwch air Mary Jones 42 Erw Las, Bethesda , ffôn 07443047642 maryeds@hotmail.co.uk

# Cyflwyno Shari Llewelyn: Uwch Swyddog Gwirfoddoli a Chymuned Castell Penrhyn

Mae'n bleser gen i ymuno gyda thîm Castell Penrhyn fel Uwch Swyddog Gwirfoddoli a Chymuned. Yn fy rôl yng Nghastell Penrhyn rydw i yn frwdfrydig iawn i sicrhau bod lleisiau lleol y gymuned yn rhan allweddol o ddyfodol Castell Penrhyn a bod cyfle i'r gymuned gael rhannu hanesion a storiâu perthnasol o'r gorffennol er mwyn ei berchnogi.

Un ffordd o sicrhau hyn, yw annog fwy o wirfoddolwyr dwyieithog yng Nghastell Penrhyn. Mae'n holl bwysig i mi fod yr iaith i'w chlywed yn y castell a'r gymuned leol yn rhan o'r cyfan. Mae sawl aelod o staff a gwirfoddolwyr eisoes yn gwneud ymdrech i ddysgu Cymraeg a hoffem barhau'r gefnogaeth tu hwnt i'r gwersi drwy archwilio cyfleoedd i ymarfer y Gymraeg wrth wirfoddoli yma.



**Shari Llewelyn, Uwch Swyddog Gwirfoddoli a Chymuned newydd Castell Penrhyn.**

Mae llu o gyfleoedd amrywiol i wirfoddoli yng Nghastell Penrhyn o ddreifio bygi; gwirfoddoli yn y siop a'r caffi, y Castell a'r ardd a mwy. Bydd cyfle i chi gael blas, cwrdd gyda rhai o'n gwirfoddolwyr a staff ac i glywed mwy rhwng 11am-2pm ar Ddydd Sadwrn yr 29ain o Ebrill. (e-bost islaw)

Rydw i hefyd yn edrych ymlaen at wneud gwaith ymgysylltu hefo'r gymuned, fel drwy waith prosiect 'Fframio'. Nod y prosiect yw cydweithio gyda'r gymuned i greu ffrâm neu osodiad newydd ar gyfer paentiad olew ar gynfas 'Chwarel Lechi'r Penrhyn' gan Henry Hawkins (c. 1796-1881) tra bydd y ffrâm wreiddiol yn cael gwaith cynnal a chadw arno. Trwy hyn, rydw i'n gobeithio byddem ni'n darganfod ac yna'n rhannu a chefnogi lleisiau cymunedol drwy adrodd hanes Penrhyn, a gwneud yr hanes a'r lleisiau yma'n amlwg i ymwelwyr Castell Penrhyn gan roi eu hymweliad yn ei gyd-destun.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn gwirfoddoli neu os yr hoffech chi fod yn rhan o ein gwaith ymgysylltu, byddwn wrth ein boddau yn clywed gennych chi. Ewch i'r wefan i gofrestru fel gwirfoddolwr, neu cysylltwch am sgwrs. Ac os hoffech ddod i'r Diwrnod Agored i Wirfoddolwyr ar y 29ain o Ebrill, yna cysylltwch gyda ni penrhyncastle@nationaltrust.org.uk. Edrychaf ymlaen at glywed gennych chi!

**ANNWYL OLYGYDD**

At sylw darllenwyr Llais Ogwan,

'Dwi'n cysylltu fel aelod o bwyllgor Gŵyl Fwyd Caernarfon, sydd bellach yn un o wyliau bwyd mwyaf Cymru. 'Dwi'n siŵr bod nifer go dda o drigolion dalgylch Llais Ogwan yn ymweld â'r ŵyl i fwynhau gwledd o fwyd a diod bob blwyddyn, yn ogystal â'r arlwy adloniannol sydd ar gael.

Dyma ddod ar eu gofyn felly.

Mae'r Ŵyl yn ddibynnol ar wirfoddolwyr. Gwirfoddolwyr yw holl aelodau'r pwyllgor, a gwirfoddolwyr sy'n sicrhau bod diwrnod yr Ŵyl yn mynd rhagddo yn (weddol!) ddi-drafferth. Rydym yn gofyn i bobol roi awr neu ddwy o'u hamser ar ddiwrnod yr Ŵyl i gynnig cyfarwyddiadau i ymwelwyr, i ddosbarthu rhaglenni, ac i gasglu cyfraniadau.

Dylai'r sawl sy'n dymuno rhoi peth o'u hamser gysylltu'n uniongyrchol â ni ar **post@gwylfwydcaernarfon.cymru.**

Cofion cynnes,
Osian




Londis Bethesda
☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

## Y Gerlan

**Caren Brown**, Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.
(01248 602509 / 07789 916166)
carenelaine@hotmail.com
**Linda Brown**, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY. (01248 601526)

**Penblwydd hapus!**
Penblwydd hapus iawn i Idwal Morris Fferm Tan Garth. 'Roedd Idwal yn 18 oed yn ddiweddar felly gobeithio dy fod wedi cael amser da'n dathlu'r garreg filltir bwysig yma.

Un arall fu'n dathlu pen-blwydd arbennig ydi Phil Williams, Ciltrefnus. Penblwydd hapus iawn iti Phil - gobeithio dy fod wedi cael amser da efo teulu a ffrindiau.

**Penblwydd Priodas**
Llongyfarchiadau mawr i Gwen a Dewi Griffith, Ciltrefnus, a fu'n dathlu 45 mlynedd o briodas. Gobeithio eich bod wedi cael gwneud rhywbeth arbennig i ddathlu.

**Diolch**
Yn ystod yr eira ganol mis Mawrth daeth un arwr i help sawl un oedd mewn angen – Mark Humphreys o Stryd y Ffynnon. Bu'n brysur yn cario gofalwyr i'w gwaith ac i gartrefi pobl fregus, aeth a pobl i apwyntiadau ysbyty a hyd yn oed arch i'r amlosgfa. Dwi'n siŵr y byddai pawb yn hoffi diolch iti o waelod calon am fod mor barod dy gymwynas.

**Chwaraewyr rygbi o fri!**
Llongyfarchiadau i Twm a Lleu Humphreys Jones Stryd Isaf a Gruff Hughes, Ciltwllan - y 3 yn rhan o Dîm Rygbi Bethesda a ddaeth yn fuddugol yng Nghwpan Gogledd Cymru. Dipyn o gamp!

**Caban Gerlan**
Ydych chi eisiau gwybod be sy'n mynd ymlaen yn y Caban a bod yn rhan o ddatblygu'r neuadd fel canolbwynt y pentref? Dewch i'n cyfarfod blynyddol am 7 o'r gloch nos Fawrth y 25ain o Ebrill i rannu syniadau dros baned.



**Rhedeg yn Lisbon**
Roedd cael rhedeg hanner marathon Lisbon ym Mhortiwgal gyda fy ffrind gora (Catrin Doyle) yn brofiad bythgofiadwy. 'Roedd hi'n llawer poethach yno na Chymru a'r golygfeydd yn anhygoel wrth redeg i mewn i'r ddinas dros Bont Ebrill 25. Mae'r bont (sy'n debyg iawn i'r Golden Gate yn San Fransisco) yn 2.3km o hyd ac 'roedd bod yn un o'r 30,000 oedd yn rhedeg drosto yn deimlad arbennig iawn. Dyma lun ohonom ni cyn cychwyn y ras.

## EISTEDDFOD LLŶN AC EIFIONYDD
### Pwyllgor Codi Arian Dyffryn Ogwen

# Bron â Chyrraedd y Nod! – cyfle i chi gyfrannu


Dyma apêl i gymdeithasau, clybiau, busnesau a theuluoedd yr ardal sydd heb eto gyfrannu i gronfa Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd drwy Bwyllgor Codi Arian Dyffryn Ogwen.

Y targed a gafodd Dyffryn Ogwen, sef ardaloedd cynghorau cymuned Bethesda, Llanllechid a Llandygái, oedd £6,000. Fel y gwelwch, mae'r ardal eisoes wedi cyfrannu £5,400, a gobaith y pwyllgor lleol ydi cyrraedd y nod o £6,000 drwy'r apêl hon yn Llais Ogwan.

Os nad ydych wedi cyfrannu'n barod, dyma gyfle i chi wneud rŵan.

**Cyfrannu**
Bydd eich cyfraniad yn mynd i gronfa dan ofal Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen cyn i'r cyfanswm terfynol gael ei drosglwyddo i gronfa Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd. Gellir cyfrannu mewn dwy ffordd:

- Arian parod/siec (yn daladwy i 'Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen') i Donna Watts, Swyddfa Partneriaeth Ogwen, 26 Stryd Fawr, Bethesda LL57 3AE; neu i Neville Hughes, 14 Ffordd Pant, Bethesda LL57 3PA.
- Trosglwyddiad banc i gyfrif 'Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen' –
HSBC Bangor; rhif didoli: 40-09-03;
rhif y cyfrif: 51306413




**DAFYDD CADWALADR**
**Cynhyrchion Coedlannol**
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
**01248 605207**

**CAFFI COED Y BRENIN**
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math – plant, pen-blwydd ac ati (yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)
Prisiau rhesymol
ORIAU AGOR
D. Mercher, Iau, Gwener 8.00 – 2.30
Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

# Bydd corff newydd yn llais i bobl Cymru ar gyfer eu hiechyd a'u gofal cymdeithasol

Mae corff newydd ac annibynnol fydd yn cryfhau grym a dylanwad lleisiau pobl wrth siapio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru wedi cael ei lansio.

O 3 Ebrill 2023 bydd Llais yn disodli gwaith saith Cyngor Iechyd Cymuned Cymru sydd wedi cefnogi buddiannau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG am bron i hanner canrif.

Bydd Llais yn trawsnewid y ffordd mae defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi. Gan weithio'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ar draws gofal cymdeithasol a gofal iechyd gyda'i gilydd am y tro cyntaf, bydd yn cynnig ffordd i bobl Cymru ddweud eu dweud yn y gwaith o gynllunio a darparu'r gwasanaethau sydd mor bwysig i'w bywydau nhw a bywydau eu hanwyliaid.

Bydd staff a gwirfoddolwyr Llais yn weithgar mewn cymunedau lleol ledled Cymru, gan wrando ar farn pobl, ac yn defnyddio'r hyn maen nhw'n ei glywed i helpu i wneud iechyd a gofal cymdeithasol yn well i bawb. Bydd Llais hefyd yno i gefnogi pobl i wneud cwynion drwy wasanaeth eiriolaeth cwynion cyfrinachol

Meddai Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: "Bydd Llais yn cryfhau lleisiau a chynrychiolaeth pobl, yn eu galluogi nhw i leisio'u barn, ac yn eu helpu i siapio eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

"Bydd Llais yn helpu i adeiladu mwy o gysylltiadau rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, unigolion a chymunedau, gan hyrwyddo llais y dinesydd sy'n wirioneddol gynrychioliadol i bawb, o bob oed, ble bynnag maen nhw'n byw yng Nghymru."

Un o brif amcanion y corff yw cynnwys lleisiau mwy amrywiol yn y sgwrs drwy weithio gyda phobl a chymunedau y mae eu safbwyntiau a'u profiadau heb eu cynrychioli'n ddigonol, er mwyn gwneud yn siŵr bod cyrff iechyd a gofal cymdeithasol, llunwyr polisïau ac eraill yn ymateb i brofiadau gan bobl o bob cefndir gwahanol.

Bydd Llais yn cynnig gofod diogel ac ymatebol i bobl rannu eu profiadau bywyd go iawn o iechyd a gofal cymdeithasol ar-lein ac wyneb yn wyneb. Bydd hyn yn cynnwys ymweld â defnyddwyr gwasanaethau ac ymgysylltu â nhw lle maen nhw'n derbyn gwasanaethau i glywed eu barn am eu gofal iechyd a'u gofal cymdeithasol.

Meddai'r Athro Medwin Hughes, Cadeirydd Llais: "Drwy weithgareddau Llais, rydyn ni am greu darlun o'r hyn sy'n gweithio'n dda a ble mae angen i wasanaethau wella, gan sicrhau bod barn pobl Cymru'n cael ei chynrychioli mewn penderfyniadau pwysig.

"Ein nod yw bod yn gorff gwirioneddol gynrychioliadol sy'n canolbwyntio ar bobl. Rydyn ni o'r farn y dylai pawb yng Nghymru allu lleisio'u barn a rhannu eu profiadau yn rhwydd ac mewn ffordd sy'n dylanwadu ar newid go iawn."

Meddai Alyson Thomas, Prif Weithredwr Llais: "Mae hwn yn gyfnod cyffrous iawn i bawb sy'n ymwneud â Llais wrth i ni geisio adeiladu ar waith gwerthfawr y Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at barhau i ymgysylltu â holl aelodau'r gymuned ac ehangu ein gwaith i ofal cymdeithasol.

"Mae gwirfoddolwyr wedi bod yn allweddol i'n llwyddiant ni ac yn grŵp mae Llais yn ei werthfawrogi'n fawr. Mae nawr yn amser gwych i ymuno wrth i ni dyfu a chyflwyno cyfleoedd gwirfoddoli newydd. Byddwn yn annog pawb i ddod i ymuno â ni a bod yn rhan o newid gwirioneddol wrth siapio dyfodol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru."

LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care


HYWEL WILLIAMS
AELOD SENEDDOL DROS ARFON

CYSYLLTWCH:
01286 672076
70 Stryd Fawr, Bangor
hywel.williams.mp@parliament.uk
YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON

JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)
CITB

CHRIS GRIFFITHS CYF
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu

18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS


# Natur o'n Cwmpas

## Richard H. Roberts – naturiaethwr o fri



Roedd Richard Henry Roberts (1910-2003) yn cael ei gydnabod fel un o fotanegwyr amatur gorau gwledydd Prydain. Cafodd ei eni a'i fagu ar fferm Llwyn Penddu Isaf, Llanllechid, ac yn naturiol, fel ei chwaer, Annie Rowena, a'i ddau frawd, Theo a Niclas, yno yn yr amgylchedd gwledig yn ifanc y datblygodd ei ddiddordeb ym myd natur. Roedd magwraeth fferm yn fodd o gael profiadau ymarferol yn yr awyr agored ynghyd â stôr o wybodaeth am anifeiliaid fferm a chreaduriaid gwyllt. O ran diddordeb penodol Richard mewn planhigion, bu dylanwad ei fam yn allweddol gan ei bod yn gwybod llawer am lysiau meddyginiaethol.

Wedi graddio ym Mhrifysgol Gogledd Cymru, Bangor, penderfynodd fynd yn athro ysgol gynradd, ac wedi ennill tystysgrif addysg cafodd waith yn Lloegr, yn Sussex i ddechrau ac yna yn Evesham. Dychwelyd i Gymru pan gafodd ei benodi'n athro yn Ysgol Penmachno. Yno yn ei amser hamdden y datblygodd ei ddiddordeb ym mhlanhigion mynyddig Eryri, a rhedynau'r ardal yn arbennig. Gwnaeth waith arloesol yn astudio patrymau dosbarthiad gwahanol fathau o blanhigion mewn perthynas â natur y creigiau yn eu cynefinoedd.




Yn 1955, cafodd ei benodi'n brifathro Ysgol Hirael ym Mangor gan ddod yn nes adref a chael mwy o gyfleoedd i wneud gwaith maes – eto yn ei amser hamdden – yn ardal y Carneddau a'r Glyderau. Bu'n gyfaill oes i Evan Roberts, Capel Curig, y botanegydd arall o fri, a châi'r ddau bleser yng nghwmni ei gilydd yn cymharu nodiadau.

Cyflawnodd waith maes arbenigol o bwys ym Môn hefyd, a chyhoeddwyd dwy gyfrol o'i waith, *The Flowering Plants and Ferns of Anglesey* yn 1982, a *An Atlas of the Flowering Plants and Ferns of Anglesey* yn 2002. Yn ogystal, cyhoeddodd bron 50 o erthyglau a phapurau gwyddonol, gan gyfrannu hefyd ddarluniau o'i waith ei hun yn manylu ar rannau o blanhigion.

Er iddo arbenigo mewn botaneg, roedd ganddo ddiddordeb mewn archaeoleg, barddoniaeth Gymraeg, hanes Cymru, a defaid mynydd Cymreig (maes yr arbenigodd ei frawd, Niclas, ynddo). Byddai'n barod iawn i rannu ei wybodaeth ag eraill, a byddai'n rhoi cyngor i staff a myfyrwyr y prifysgolion, ac i gadwraethwyr proffesiynol a botanegwyr amatur. Yn 1979, derbyniodd radd anrhydedd Meistr mewn Gwyddoniaeth gan Brifysgol Cymru.

Cyfraniad pellgyrhaeddol ganddo oedd cydweithio efo Bil Lacey o'r Coleg ym Mangor fel cyd-sylfaenydd Ymddiriedolaeth Naturiaethwyr Gogledd Cymru (Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru heddiw). Dyma gorff sy'n cyflawni gwaith pwysig yn addysgu'r cyhoedd ac yn diogelu cynefinoedd amrywiol rywogaethau byd natur, lawer ohonynt â'u niferoedd yn prinhau.


Bu'n aelod gweithredol o'r British Pteridological Society a'r Botanical Society of the British Isles (B.S.B.I.) am bron hanner can mlynedd. Bu am gyfnod yn olygydd Bwletin Cymreig y B.S.B.I, a chafodd ei urddo'n Aelod Anrhydeddus. Oherwydd ei wasanaeth nodedig i fotaneg ac i warchodaeth, derbyniodd Fedal H.H. Bloomer yn 1999, medal a ystyrir yn anrhydedd glodfawr yn y maes.

***Diolch i Marian Arman am gael cyhoeddi'r llun o Richard H. Roberts, a oedd yn ewythr iddi.***

*Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG*
*ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.*

Arbenigwr mewn lloriau coed caled
A.G.L.
Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

SIOP OGWEN
yn cynnig gwasanaeth
CLIC A CHASGLU
Llawer o Nwyddau Newydd gan Grefftwyr Newydd wedi cyrraedd y siop
Hefyd
Llu o gardiau cyfarch ar gyfer pob achlysur. Cysylltwch â'r siop ar yffôn **07394 905881**
neu E-bost siop@ogwen.org i drafod beth sydd ar gael ac i wneud trefniadau casglu a thalu
**CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL**



Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr
Cludiant Preifat a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

post@llaisogwan.com

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY

UNIPART CAR CARE CENTRE

SIÂN GWENLLIAN
AELOD O'R SENEDD DROS ARFON

CYSYLLTWCH:
sian.gwenllian@senedd.cymru
01286 672 076
70 Stryd Fawr, Bangor

Senedd Cymru
Welsh Parliament



Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan
Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

# Nyth y Gân

## Merlod Mynydd

Yn yr anial mor heini, hwn yw'r brid
Ar dir brwnt yn pori;
Mae hanes am eu hynni,
Am y nerth na wyddom ni.



## Bwrlwm

Roedd bwrlwm cymdeithasu
Pan oeddem ni yn blant,
Nid yw cymdogaeth heddiw
Fel llif yn nŵr y nant.

Mor llyfn y rhedai honno
Â'i llif a'n cadwai ni
I wrando'r gân fach hyfryd
A gaed o'i bwrlwm hi.

## Y Drôr

(yn nhŷ Dewyrth Jac)
Mewn drôr bu holl drysorau yr henwr
A hanes mordeithiau,
A châi cyn iddo ei chau
Ei lonni gan hen luniau.

## Y Mynydd

Yn gwisgo mae sawl gwasgod ar dyrau
Ei dir drwy bob cyfnod;
Adwaenwn hwn, mae'n hynod
Am ei faint ac am ei fod.

## Ystlum

O adfail mae o'n hedfan yn dawel
A diwyd ei hunan;
Daw ymysg y pryfed mân
Yn y t'wyllwch tu allan.

**Dafydd Morris**

PARTNERIAETH OGWEN

### Trafnidiaeth Gymunedol

Gyda'r nosweithiau'n ymestyn, be am fanteisio ar gerbydau a beics y Dyffryn Gwyrdd? Mae'r adnoddau ar gael am brisiau rhesymol – Efan y cerbyd addas i gadair olwyn gyda gyrrwr neu 'Carnedd' i'w logi ar rwydwaith Co-Wheels o'r Llyfrgell Gymunedol. Yn ogystal, rydym yn ymgynghori gyda chymunedau Dyffryn Ogwen wrth inni ddatblygu'n prosiect newydd 'Dyffryn Caredig'. Gyda chyfnod y grant gwreiddiol gan y Loteri'n dod i ben rydym yn ceisio am adnoddau ychwanegol i ymestyn ein gwaith cludiant – pob dim o drwsio beiciau gyda ysgolion lleol i drafnidiaeth ysbyty i deithiau siopa. Rydym yn awyddus iawn i glywed barn darllenwyr y Llais ac mae'n holiadur ar gael ar y we yn https://forms.gle/UiYeupfkj1Qr3T1C9 neu fel copi caled yn swyddfa'r Dyffryn Gwyrdd.

Am fwy o fanylion cysylltwch a huw@ogwen.org 07874382114

### Bws Ogwen

Ar ôl gaeaf o gludo trigolion ein cymuned i siopa, teithiau ysgolion a chlybiau henoed a chwaraeon, mae Bws Ogwen bellach yn ôl ar y lon yn cludo ymwelwyr a thrigolion lleol i fyny o Fethesda i Lyn Ogwen a Chapel Curig. Mae Capel Curig yn ychwanegiad i'r amserlen ar sail adborth defnyddwyr a mae'r penderfyniad i gludo pobl i ac o Gapel Curig wedi ei groesawu gan drigolion lleol. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Parc Cenedlaethol, Cyngor Gwynedd, Gwasanaeth Cefnffyrdd ac eraill ar brosiect Bws Ogwen a rydym yn falch o allu cyflwyno gwasanaethu cynaliadwy fydd yn dod a budd i'r ardal leol. Bws trydan yw Bws Ogwen felly mae hi hefyd yn lleihau allyriadau carbon yn y parc cenedlaethol a'r pentref. Mae modd i bobol barcio ym meysydd parcio cyhoeddus Bethesda a'r clwb pêl-droed a bydd Colin neu Evan y gyrwyr yn eich cludo i fyny'r dyffryn. Mae'r adborth gan ddefnyddwyr yn ganmoladwy a gobeithio y bydd mwy o bobl yn manteisio ar y gwasanaeth.




### Hwb Dyffryn Ogwen

Y Warden Ynni - Ers dechrau gweithio yn yr Hwb ran amser cwta ddeufis yn ôl mae Ianto Shea bellach wedi cynghori 62 o unigolion o'n cymuned a hynny ar faterion ynni, budd-daliadau, a sawl maes arall. Mae Ianto wedi gweithio i Cyngor ar Popeth yn y gorffennol a gyda phrofiad helaeth o roi pobl ar ben ffordd. Dywedodd "Os na fedrai helpu chi, fe fedra'i gyfeirio at rywun arall fydd yn gallu bod o gymorth."

Hwb Ogwen, 57 Stryd Fawr, Bethesda. Ar agor bob Dydd Mawrth a Dydd Iau 10-6. Croeso cynnes i bawb. Diolchgar iawn am roddion bwyd a nwyddau ymolchi. marie@ogwen.org 07518177080

### Clwb Bwyd Dyffryn Ogwen

Mae'r sesiwn yma sy'n rhannu bwydydd 'Fareshare' bob pnawn Gwener yn parhau'i fynd o nerth i nerth. Am £4.50 mae aelodau'r Clwb yn cael chwech pecyn o fwydydd da sy'n lleihau gwastraff, arbed arian a chreu cymuned werdd arall yn y Dyffryn. Mae'r Clwb yn digwydd 4-5pm bob dydd Gwener yn yr Hwb Cymunedol, 55 Stryd Fawr Bethesda. Am fwy o fanylion cysylltwch a menna@ogwen.org 07561648824

### Cadwyn Ogwen

Rydym yn gyffrous iawn i groesawu Cegin Karen i'n hwb bwyd! Mae ei chacennau a bisgedi bendigedig nawr ar gael i'w harchebu ar cadwynogwen.cymru. Cofiwch archebu erbyn hanner dydd ar ddydd Mawrth i gael eich danteithion wedi'u danfon brynhawn Iau.

### Gofod Gwneud

Bydd sesiynau Gwnïo Gofod yn ailddechrau ddydd Mawrth 18 Ebrill gyda rhaglen hwyliog o brosiectau i'ch helpu i ddysgu sgiliau gwnïo newydd. Cadwch olwg ar ein cyfryngau cymdeithasol i weld pa brosiectau sydd ar y gweill ac ymunwch â ni rhwng 5 a 7 ar nos Fawrth yn swyddfa Dyffryn Gwyrdd. Croeso cynnes i bawb.



### Beics Ogwen

Mae Beics Ogwen wedi bod yn mynd i ysgolion lleol i ddysgu sgiliau trwsio beiciau a reidio sylfaenol i blant.

Dywedodd Tom Simone, cydlynydd Beics Ogwen: "Rydym eisiau i blant a rhieni wneud y mwyaf o reidio eu beiciau - ac mae dysgu sut i'w trwsio yn un ffordd allweddol i'w helpu.

"Unwaith eto, diolch i bawb sy'n cefnogi trwy ein haelodaeth misol neu drwy gyfrannu beiciau ac ategolion i ni."

Mae gan Beics Ogwen feiciau ar gael i'w llogi, yn ogystal â benthyg os oes angen.

Mae ein beic diweddaraf yn feic cargo trydan, a all naill ai gludo dau blentyn, neu unrhyw beth arall yn ei fwced blaen!

Gweler beicsogwen.co.uk am ragor o wybodaeth.

### Gwirfoddoli

Rydym yn trefnu llawer o gyfleoedd a digwyddiadau gwirfoddol ar draws Dyffryn Ogwen, gan gynnwys Beiciau, Garddio, digwyddiadau amgylcheddol a llesiant. Rydym yn croesawu pawb i gymryd rhan yn y digwyddiadau dim ots beth yw eich gallu.

Byddwn hefyd yn gallu cynnig cyfleoedd tu hwnt i waith Partneriaeth Ogwen a 'r Dyffryn Gwyrdd. Cysylltwch gyda Anna os hoffwch sgwrs ynglŷn a'r cyfleoedd sydd ar gael neu am ragor o wybodaeth. anna@ogwen.org 01248 602131

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Alison
Rhaid gwneud apwyntiad.
Ffoniwch: 07796 038824

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

## Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk (07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

**Diolch Anti Wendy**

Pan ddaeth Wendy Ellis i Gylch Meithrin Cefnfaes gyda'i nith fach yn y nawdegau, ychydig a wyddai y byddai yno tan fis Mawrth, 2023, ac ar Fawrth 31ain eleni gadawodd Anti Wendy ei swydd fel cymhorthydd yn y cylch.

Wrth iddi aros i gynorthwyo yn y Cylch gwelodd Anti Angharad, yr arweinydd ar y pryd, ac Anti Nerys y dirprwy, bod Wendy yn gaffaeliad i'r cylch ac yn fuan iawn daeth yn ran o'r staff. Ar y pryd, ystafell yng Nghanolfan Cefnfaes oedd y safle ac wedi bod ers blynyddoedd. Ond erbyn 2015 agorwyd safle newydd dan ofal Dechrau'n Deg ym Mhlas Ffrancon, ond o dan yr un enw - Cylch Meithrin Cefnfaes. Yn ystod y cyfnod yma bu llawer iawn o newidiadau gyda'r staff yn newid, ond roedd Anti Wendy yno. Bu llawer iawn o blant yr ardal yn ffodus iawn o'i chwmni, ei chymorth a'i gofal dros y blynyddoedd.



Person swil ydy Wendy yn y bôn, felly dipyn o syndod iddi oedd gweld cyn gydweithwyr, ffrindiau a chynrychiolydd o'r mudiad yn ymuno efo hi am banad a chacen ar ei bore olaf. Cyflwynwyd hi gydag anrhegion, blodau, cacen arbennig iawn ac englyn iddi gan y bardd Ieuan Wyn. Diolchodd Lois Williams yr arweinydd presennol iddi am ei holl waith.

Ond dim ond newid un ffedog am un arall mae Wendy gan y bydd o hyn allan yn gweithio yng nghegin Ysgol Penybryn, ac yn gweld llawer o'r plantos, er eu bod ychydig yn hŷn bellach. Pob hwyl Wendy a diolch.

Anti Wendy fydd hi o hyd, - a'i gwaith
Fydd ar gof yn hyfryd;
Yn ddiddiwedd o ddiwyd,
I bob un mae'n werth y byd,

Ieuan Wyn

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Cian Iolen Rhys, 5, Garneddwen ar ei lwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd, Rhanbarth Eryri yn ddiweddar. Cafodd Cian gyntaf ar unawd Blwyddyn 10 a dan 19 oed yn canu'r 'Cymro'. Hefyd, cafodd drydydd yn ei gyflwyniad o'r alaw werin 'Mae'r Ddaear yn Glasu'.

Pob lwc i Cian yn Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd a gynhelir yn Llanymddyfri rhwng 29ain Mai a'r 3ydd Mehefin.

**Marw**

*William David Jones*
Ar 15 Mawrth yn Ysbyty Gwynedd, bu farw William David Jones, 1 Glan Ffrydlas, yn 89 mlwydd oed. Priod annwyl Marilyn, tad hoffus a gofalus Gillian, taid annwyl a charedig Scott a brawd yng nghyfraith i Gwenda Bowen, Gerlan. Gŵr tawel a pharchus oedd Bill, ac yn barod am sgwrs â phawb. Cynhaliwyd ei angladd fore Mawrth, 28 Mawrth yn Amlosgfa Bangor dan arweiniad y Parchedig Sara Roberts, gyda Mrs. Christine Edwards wrth yr organ. Cyflwynwyd teyrnged hyfryd i'w thad gan Gillian. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu yn eich profedigaeth ar golli priod, tad a thaid annwyl.

*James Albert Rees*
Yng nghartref Bryn Seiont Newydd, Caernarfon, ar 18 Mawrth, bu farw James Albert Rees, Erw Gain, Stad Coetmor, yn 86 mlwydd oed. Priod annwyl Rowena, tad Marion, Gillian a David a thad yng nghyfraith Kevin a Shôn. Roedd yn daid i Siôn, Catrin, Lowri, William, Sara, Elan a Hari, ac yn hen daid i Awel, Mared, Eiry, Guto, Now, Myfi, Martha a Jac. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Gwener, 31 Mawrth, yn Amlosgfa Bangor. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu yn eich profedigaeth.

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Brysiwch wella!**

Braf iawn yw deall bod Nicola Hughes, Sŵn y Nant, adref o'r ysbyty wedi llawdriniaeth yn Ysbyty Broadgreen. Daliwch i wella Nicola!

Anfonwn ein cofion at bawb o'r ardal sydd yn wael, yn unig, neu mewn galar am anwyliaid, gan ddymuno cysur a gwellhad buan i bawb.

**Enillwyr Clwb Cant mis Mawrth:**

£40: Rhif 10 – Mrs Blodwen Dignam
£20: 106 – Mrs Glenys Morgan
£15: 73 – Mrs Shirley Williams

Llongyfarchiadau i'r enillwyr! Tynnir y gwobrau lwcus yng Ngwesty'r Douglas ar y nos Wener olaf o bob mis am 7.30; croeso cynnes i bawb.

**Apêl Eglwys Glanogwen**

Bydd cwmni lleol yn cychwyn ar y gwaith o atgyweirio'r tŵr ar ôl y Pasg, ac oherwydd diogelwch y cyhoedd, bydd y giât yn Pantglas yn cael ei chau am tua 6 wythnos tra fydd y gwaith ymlaen.

Er hyn, bydd gwasanaethau yn dal i'w cynnal fel arfer ar fore Sul a bore Mercher, pan fydd saib ar y gwaith.

Bydd rhaid ail-ddechrau codi arian i'r Apêl er mwyn trefnu mwy o'r atgyweirio. I gyn-aelodau sydd ddim yn lleol, mae'r safle GoFundMe yn dal ar agor – safle we GoFundMe, Glanogwen yn y bwlch 'search' ac ymlaen.

Neu anfon siec yn daladwy i 'Cronfa Apêl Glanogwen' a chysylltu â'r wardeniaid am fanylion pellach.

**Amlenni Rhodd**

Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson trwy'r amlenni wythnosol – mae'r cyfraniadau hyn yn holl bwysig tuag at gostau'r eglwys. Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych amlenni ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd, gallwn alw amdanynt.

Mae'n ofid bod presenoldeb ar fore Sul wedi lleihau cymaint dros y misoedd diwethaf, a gobeithiwn y bydd aelodau yn dod yn ôl i'r eglwys gyda'r tywydd gwell.

**Gwasanaethau**

Pob Bore Sul am 11.00 y bore – Cymun Bendigaid

Pob Bore Mercher am 10.30 y bore – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn.

Croeso cynnes fel arfer i bawb i'n holl wasanaethau.

**Manylion cyswllt**

Gellir cysylltu â'r ficer, y Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd ar 07847125225 ar unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys, gan gynnwys trefnu priodas, angladd neu fedydd.

Ac mae Barbara (600530) a Glenys (600371) ar ben arall y ffôn os am gael sgwrs.

## Yr Eglwys Unedig

**Bore Coffi**
Hyfryd yw gallu cyhoeddi bod yr elw a wnaethpwyd tuag at argyfwng Twrci a Syria yn y Bore Coffi a gynhaliwyd y mis diwethaf yn £800.00 erbyn hyn. Diolch unwaith eto am y gefnogaeth a gafwyd gan y gymuned.

**Blychau Cenhadol**
Casglwyd cynnwys y blychau cenhadol am eleni yn ddiweddar, ac 'roedd y cyfanswm yn £80.00. Diolch yn fawr i'r ffyddloniaid, yn blant ac oedolion, sydd yn cyfrannu fel hyn bob blwyddyn.

**Apêl Honduras**
Bellach mae'r ymgyrch ar ran yr apêl yma wedi dod i ben, a llwyddwyd i godi £1,050 drwy'r amrywiol weithgareddau. Diolch yn fawr i Alwenna Puw, Carol Jones a Luned Edwards am eu gwaith yn trefnu'r cyfan.

**Dydd Gweddi Byd-eang**
Cynhaliwyd y gwasanaeth blynyddol hwn yn y Festri yn ystod mis Mawrth, gyda merched o wahanol eglwysi yn cymryd rhan. Gwnaed casgliad teilwng iawn, a diolchwn i Ceri Dart am drefnu'r cyfan yn ôl ei harfer.

**Y Gymdeithas**
Yn anffodus, oherwydd tywydd garw, bu'n rhaid gohirio cyfarfod mis Mawrth, pryd yr oedd Walter Williams i fod i gyflwyno sgwrs ar Gapel Celyn. Gobeithiwn allu ail-drefnu'r noson maes o law.

**Cyfarfod Sefydlu**
Cynhelir Cyfarfod Sefydlu'r Parchedig Nerys Griffiths yn weinidog arnom ym mis Ebrill, a bydd adroddiad llawn yn rhifyn Mai o'r Llais.

**Adroddiad y Capel**
Bellach, mae'r Adroddiad wedi dod o'r wasg, ac 'rydym wrthi'n ei ddosbarthu i'n haelodau. Os nad ydych wedi ei dderbyn, cysylltwch â Walter Williams, yr Ysgrifennydd, os gwelwch yn dda.

**Sul y Pasg**
Byddwn yn torri tir newydd eleni, drwy gael gwasanaeth Cymun yng Nghapel y Rhos, Llanrug – y tro cyntaf i ni ymuno gyda'n gilydd gyda'r tair eglwys arall yng Ngofalaeth Glannau Seiont ac Arfon. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at gael cydweithio fel hyn yn rheolaidd yn y dyfodol, pan fydd pob eglwys yn ei thro yn cynnal gwasanaeth undebol.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cywiraf at y rhai sydd yn wael neu'n fregus – da gallu dweud bod Rhiannon Efans bellach wedi dod adref o'r ysbyty, ac yn gwella'n bur foddhaol. Pwyll biau hi, Rhiannon!

**Cyhoeddiadau'r Sul**
Ebrill 23: Gweinidog (10)
Ebrill 30: I'w drefnu
Mai 7: I'w drefnu
Mai 14: Gweinidog(10)
Mai 21: Undebol yn y Cysegr, Bethel (10) – Cymun
Mai 28: Y Parchedig Mererid Mair (10)

Trefnir cludiant i'r rhai ohonoch sydd yn dymuno dod i Fethel – gadewch i ni wybod, os gwelwch yn dda. Cofiwch y bydd yr holl oedfaon i'w clywed ar y ffôn hefyd – croeso i chwi i ymuno â ni.
A ninnau bellach yn nhymor y gwanwyn, dyma bennill i'n hatgoffa o raslonrwydd Duw:
Am brydferthwch oriau'r dydd,
Am brydferthwch oriau'r nos,
Bryn a dyffryn, blodau, gwŷdd,
Haul a lloer, pob seren dlos,
O Dduw graslon, dygwn ni
Aberth mawl i'th enw di.

**Diolch**
Dymuna Marilyn, 1 GlanFfrydlas, Gillian a Scott, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur marwolaeth Bill Jones ar 15 Mawrth. Maent wedi gwerthfawrogi yr holl gardiau, ymweliadau a galwadau ffôn gan ffrindiau a chydnabod ar adeg mor drist yn eu hanes. Diolch hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof am Bill, tuag at gynnal a chadw Mynwent Eglwys Coetmor. Diolch yn fawr iawn.

**Ymddeol**
Dymunwn ymddeoliad hapus i Carys Thomas, Rhes Douglas, wedi blynyddoedd o weithio i gwmni Elwyn Jones, Cyfreithwyr, Bangor.

**Penblwydd Priodas**
Llongyfarchiadau calonnog i John a Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf, ar ddathlu 65 mlynedd o fywyd priodasol ar 22 Mawrth. Maent yn dymuno diolch i bawb am eu caredigrwydd, am y cardiau a'r anrhegion, heb sôn am yr holl flodau.

**Taid a Nain**
Llongyfarchiadau i Paul a Bethan Jones, Bryn Caseg, ar yr achlysur hapus o ddod yn daid a nain am y tro cyntaf, drwy enedigaeth Deio Lloyd Hayes, mab i Sioned a David.

**Ysbyty**
Cofion a gwellhad buan i'r sawl fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, sef Nicola Hughes, Sŵn y Nant, Frank Thomas, Llety'r Adar a Thomas Jones, Rhos y Coed. Da deall fod rhai wedi dychwelyd gartref erbyn hyn.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Lilian a Cemlyn Williams, Erw Las ar ddod yn nain a thaid eto. Ganwyd merch fach Gwen Lloyd i'w merch Rhian a'i gwr Geraint yng Nghaerdydd ar Fawrth 14eg, chwaer fach i Awen Haf. Llongyfarchiadau i'r teulu i gyd.

Dilynwch Llais Ogwan ar
**www.llaisogwan.com**


Marchnad Ogwen

**Mai 13eg**
**9.30am - 1pm**

**Neuadd Ogwen**

Bwydydd a Chrefftau
Stondinau Newydd !

**www.marchnadogwen.co.uk**
**facebook instagram**

**BEICS OGWEN**

**Gweler y wefan am restr llawn o feiciau a bargeinion.**



**Llogi beiciau a gweithdy Cefnfaes, Bethesda beicsogwen.co.uk**










**Llogi beiciau a gweithdy Cefnfaes, Bethesda beicsogwen.co.uk**

facebook @PartneriaethOgwen
www.beicsogwen.co.uk
07394906036
beics@ogwen.org

Dilynwch Llais Ogwan ar Trydar
**@Llais_Ogwan**

# Difyrion Digidol

## Deian ap Rhisiart

Un o brif ddiddordebau ein teulu ni yw natur a bywyd gwyllt a chyda'r Gwanwyn bellach wedi cyrraedd, mae yna fwy o gyfle i fynd tu allan ac ymchwilio gyda apiau adnabod rhywogaethau natur efo'r plant boed wrth adnabod adar, coed neu bilipalod. Un o'n nodau ni fel rhaglen Cymunedau Digidol Cymru yw hybu defnydd o dechnoleg er budd llesiant a iechyd meddwl. Ac mi ydan ni fel siaradwyr Cymraeg yn ffodus iawn fod gennym wefan gynhwysfawr fel Llên Natur i gynorthwyo pobl o bob oed i chwilota a gwerthfawrogi byd natur. (https://www.llennatur.cymru/)

Beth sydd well i iechyd a llesiant ond llond ysgyfaint o awyr iach a gwerthfawrogi bywyd gwyllt ac mae Llên Natur yn adnodd fendigedig i ddatblygu'r diddordeb hwnnw.

Rwyf wedi sôn am Llên Natur o'r blaen yn fy ngholofnau blaenorol ond heb roi sylw fanwl iddi, ac mae yna gymaint i'w sôn. Mae'r wefan ei hun wedi'i rhannu yn wahanol adrannau – Y Tywyddiadur, y Bywiadur, yr Oriel, Pytiau fideo, Llyfrgell a Mapiau.

Gan droi at y Tywyddiadur yn gyntaf, mae'r Tywyddiadur yn gwbl rhyngweithiol, ac mae'n caniatau i chi gofnodi a logio'r tywydd sy'n digwydd – mae posib defnyddio'r adnodd chwilio i weld y gwahanol digwyddiadau naturiol e.e. eira mawr neu stormydd eithafol (https://www.llennatur.cymru/Y-Tywyddiadur) fel y mae'r wefan yn egluro "mi allwch rhoi gwybodaeth i fewn iddo, neu chael gwybodaeth allan. Y cam cyntaf y byddwch yn cymryd wrth fentro ar y dudalen hon felly fydd dewis pa un rydych am ei wneud.... Chwilio ynteu Mewnbynnu (blychod chwilio ar y chwith mewn glas, blychod mewnbynnu ar y dde mewn coch)."

Pan ydych yn ansicr o'r enw Cymraeg am rywogaeth arbennig, mae'r Bywiadur yn ganllaw digidol angenrheidiol. "Trysorfa o wybodaeth am y gwahanol fathau o anifeiliaid a phlanhigion yw'r Bywiadur (https://www.llennatur.cymru/Y-Bywiadur). Mae'n eiriadur rhywogaethau ond yn ogystal cewch hefyd holi'r Bywiadur am enw Cymraeg, Saesneg neu Ladin am unrhyw anifail neu blanhigyn o'r grwpiau mwyaf adnabyddus yng ngwledydd Prydain." Felly, yn ddelfrydol i'r cyw naturiaethwyr yn ein plith. Er enghraifft os y rhown ' Gylfinir' yn y chwiliwr, nid yn unig ceir yr enw Saesneg, Cymraeg a Lladin, ond maent yn cynnwys yr enwau tafodieithol hefyd e.e.

Gylfinir - cornicyll y waun [gweler lapwing], Giarliw, chwibanogl y mynydd, cwrlig, cwrlip, chwibanwr, glifinir fawr (Sir Fôn ... Numenius arquata, Curlew.

Mae adran yr Oriel sy'n cynnwys lluniau o bob math sydd wedi eu dewis gan y cyfrannwyr am eu diddordeb amgylcheddol arbennig. Yr hyn sydd yn gwneud yr Oriel yn wahanol i gasgliadau eraill o luniau yw'r capsiynau y mae'r cyfrannwyr yn eu hychwanegu. Gall y capsiwn gynnwys dyddiad a lleoliad y tynnwyd y llun.

Mae yna hefyd bytiau fideo difyr tu hwnt sydd wedi eu llwytho ar safle YouTube Llên Natur www.youtube.com/user/Llennatur sy'n cynnwys cofnodion fideo defnyddwyr yn cynnwys clip o Walch glas yn gwledda ar ddrudwy.

Mae yna hefyd adran Llais sy'n gronfa o sgyrsiau byr "hanes llafar", yn ymdrin â rhyw agwedd ar fyd natur neu'r amgylchedd o fewn profiad personol y sawl sydd yn cael ei gyfweld/chyfweld. https://www.llennatur.cymru/Llais . Mae'r adran fapiau yn storfa arall wych o wybodaeth a'i phwrpas yw cyflwyno gwybodaeth sy'n seiliedig ar leoliad gan geisio amlygu patrymau na fuasent yn amlwg heb eu rhoi ar fap. Cofiwch hefyd ymaelodi â'r gymuned ar Facebook i gofnodi unrhyw arsylwadau ym myd natur, neu i fwynhau a dysgu gan gyfranwyr eraill. https://www.facebook.com/groups/CymunedLlenNatur/

Mae yna lond gwlad o gynnwys ar y wefan hon i'ch cadw'n brysur am ddyddiau. Ewch ati i bori drwyddi! Mwynhewch!

Os ydych angen datrys problem ddigidol neu'n chwilio am hyfforddiant mewn sgiliau digidol, cysylltwch gyda mi deian.apRhisiart@cwmpas.coop

MODURDY FFRYDLAS

Profion M.O.T.

PERCHNOGION
A.LL. ac R.W. WILLIAMS

**Stryd Fawr, Bethesda**

**• PROFION M.O.T. •**

**GWASANAETH • ATGYWEIRIO**
**•TEIARS A BATRIS•**
**GWASANAETH TORRI I LAWR**
**NEU DDAMWAIN**

**Ffôn: 600 723**
**E-bost: ffrydlas@btconnect.com**

# Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen,
Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk
(01248 355336)

**Clwb Rhiwen**
Aeth yr aelodau am dro i Fron Goch, rhai ohonom yn teithio yn nhacsi Aled ac eraill yn mynd yn eu ceir. Cawsom ddiwrnod difyr yno a chael cyfle i gael sgwrs wrth gael paned. Roedd pawb o'r farn i ni gael pnawn pleserus

Mae'r clwb yn cyfarfod yn y Neuadd ar y 3ydd Dydd Mercher am ddau o'r gloch. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

**Merched y Wawr**
Roedd rhai o'n haelodau yn absennol oherwydd salwch, brysiwch wella. Roedd gan Carys hen lun o bobl Rhiwlas ers talwm ac roedd rhestr o ble roeddent yn byw, ond dim enwau o gwbl. Roedd cais wedi dod inni gael gwirfoddolwyr i helpu ym mhabell MYW ar ddiwrnod arbennig yn yr Eisteddfod. Sawl un wedi gwirfoddoli a mwy o fanylion i dod. Diolch i Carys am wneud y baned.

**Cyngerdd yn y Neuadd**
Yn ôl a ddeallaf mae pob Cyngor Cymuned sydd yn ardal yr Eisteddfod Genedlaethol i gyfrannu at gostau yr ŵyl a golyga hynny fod pentrefi'r ardal i godi swm o arian hefyd. Yn Rhiwlas rydym yn lwcus fod Elwyn Jones, ein Cynghorydd ac y sydd hefyd yn Gadeirydd Cyngor Gwynedd wedi mynd at i drefnu cyngerdd. Roedd sawl un ohonom a fynychodd y cyngerdd yn cofio am y cyngherddau a gawsom yn yr hen neuadd flynyddoedd yn ôl bellach. Roedd pob cyngerdd bryd hynny yn Gyngerdd Mawreddog a'r diweddar Alun Williams oedd yn arwain y noson ac yn cyflwyno'r unawdwyr. Roedd eisteddfod yn flynyddol hefyd wedi'i threfnu gan gapel Ysgoldy a byddai'r cystadleuwyr yn dod o bell ac agos. Byddai dramâu hefyd yn dod, a'r ffefryn oedd Cwmni Drama Llannerchymedd. Fel plant roeddem yn eistedd yn y tu ôl amser drama ac yn y blaen pan oedd cyngerdd. Cofiaf hefyd fel y deuai Al I Roberts y consuriwr a Dorothy atom yn weddol reolaidd. Yn aml byddai pobl Caerhun a Glasinfryn yn llogi bws i ddod i'r gwahanol weithgareddau.

**Diolch Iona**
Roedd noson y gyngerdd yn gyfle i ddiolch i Iona Jones am ei gwaith cymunedol dros flynyddoedd lawer, ac roedd cyfle i holl gymuned Rhiwlas gydnabod hynny. Dyma Rhys Meirion yn cyflwyno tlws a blodau i Iona tra fod Dilwyn Morgan yn rhoi amlinelliad o'r gwaith cymunedol mae hi wedi ei gyflawni.



**Cyngerdd Mawrth 31**
Roedd yn amlwg yn reit fuan fod y tocynnau fel aur ac fe werthwyd 120 ohonynt. Bu aelodau pwyllgor y Neuadd yn brysur iawn yn paratoi'r ystafell fawr, llawer o ddiolch iddynt. Braf oedd gweld nifer o gyn-blant y pentref wedi dod i'r cyngerdd a phobl o'r pentrefi cyfagos wedi dod atom. Deallaf fod merch o'r Wcrain yn y gynulleidfa ac fe enillodd un o'r wobrwyon y raffl. Diolch i'r teulu a ddaeth â hi gyda hwy. Elwyn a drefnodd y gwestion sef Rhys Meirion, Môn-Heli a Hogia'r Bonc heb anghofio cyfeilyddes fedrus Rhys Meirion, a Dilwyn Morgan y arwain y noson. Ychydig yn ôl roedd pwyllgor y Neuadd wedi trefnu i gael offer ar do y neuadd i wella'r acoustics ac roedd yn hynod effeithiol a Rhys Meirion yn ei ganmol.

Roedd Dilwyn Morgan yn cyflwyno'r gwesteion yn ffraeth fel arfer. Cawsom amrywiaeth o ganu, operatig, canu gwerin a rhai hwyliog iawn gan Hogia'r Bonc. Diolch i Elwyn am drefnu'r noson, diolchodd i'r gwesteion ac i bawb a ddaeth i gefnogi'r noson. Yn y gynulleidfa roedd noddwyr a gyfrannodd tuag at y noson sef Huw Jones o Nant y Garth, Mrs Meinir Griffiths, Tros y Waun, Penisarwaun a chyfraniad o gronfa Cadeirydd Cyngor Gwynedd. Diolch i swyddogion y Neuadd ac i Elwyn am drefnu'r noson, yn amlwg fod pawb wedi mwynhau eu hunain. ac yr ymwelwyr wedi dotio at y neuadd.



Rhys Meirion



Hogia'r Bonc



Roedd yr artistiaid i gyd yn canmol y Neuadd yn enwedig rŵan ar ôl gosod paneli acwstig ynddi



Môn-Heli

# CHWILAIR



## PYSGOD AFON A MÔR

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | W | F | H | R | I | E | T | O | R | G | O | C | H | J | L | C | M | B |
| V | C | B | H | X | J | U | I | S | V | S | H | E | I | M | G | V | H | M | D |
| W | A | P | H | U | Z | M | G | X | V | A | D | D | N | A | P | A | U | Q | U |
| S | T | E | O | F | R | O | P | Y | T | Q | Z | G | R | H | C | U | M | W | N |
| O | H | N | Y | R | E | I | A | M | S | O | Z | U | T | F | D | X | U | P | W |
| R | F | O | H | C | Q | H | W | A | E | H | R | O | Y | E | E | G | E | O | M |
| H | O | G | E | P | T | T | C | C | B | B | C | B | U | U | J | P | L | T | M |
| I | R | V | V | D | C | B | B | R | F | R | F | O | W | G | J | V | I | I | R |
| R | X | I | M | H | T | T | O | E | S | K | O | P | W | T | R | C | M | K | C |
| B | O | R | C | X | V | R | Y | L | H | S | T | M | R | E | F | Y | J | D | Z |
| H | B | C | W | O | S | C | R | L | A | I | X | S | N | I | L | X | J | J | M |
| B | W | T | E | X | M | D | X | K | F | U | A | P | C | Q | Y | O | I | L | F |
| L | E | N | R | C | Z | Q | R | O | C | R | T | D | G | W | S | L | Z | E | B |
| L | E | Y | A | R | J | K | J | C | F | L | N | L | R | V | O | G | J | P | W |
| Y | P | D | G | E | S | O | W | N | J | J | Q | U | L | F | S | V | T | X | E |
| H | U | E | G | P | I | H | E | S | L | Z | E | A | F | X | I | W | T | Z | H |
| T | K | N | V | A | G | P | G | B | N | K | A | D | S | I | K | O | G | D | H |
| Y | B | W | S | I | R | U | R | O | L | L | E | D | A | N | X | A | G | X | R |
| R | A | G | E | E | O | K | K | D | A | N | T | O | G | W | B | M | B | J | R |
| B | F | U | N | K | M | B | Z | E | B | B | C | U | Y | C | F | T | Z | M | A |

Yn y Chwilair mis yma mae enw deuddeg PYSGODYN i chwi eu darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 28 Ebrill. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nad oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.**

Rwyf yn ymddiheuro unwaith eto am osod testun braidd yn galed i chi gyda'r Chwilair y mis diwethaf, ond mae'n mynd yn galetach cael hyd i un o fis i fis gan fy mod wedi bod wrthi ers blynyddoedd bellach. Rwyf yn ddiolchgar iawn i Alan Davies, un o ddarllenwyr y Llais am gynnig y testun yma ar gyfer Ebrill.

**Dyma atebion Chwilair Mawrth:** Bonclust; Cefn Llaw; Colli Limpin; Glaw T'rannau; Hebrwng; Llaw cyn llwy; Moelyci'n gwisgo cap; Pipi-down; Pistillo bwrw; Swadan; Wal wynt; Wedi mynd yn ffliwt.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir:** Elizabeth Buckley, Tregarth; Rosemary Williams, Tregarth; Doris Shaw, Bethesda; Gwen Davies, Bethesda; Olive Williams, Maes y Garnedd; Eirwen Owen, Erw Las.

**Enillydd Mawrth oedd:** Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf, Bethesda.

# YSGOL RHIWLAS

**RNLI Biwmares**
Cafodd y Cyfnod Sylfaen ymweld â'r Orsaf RNLI ym Miwmares i gyfarfod y gwirfoddolwyr ac i ddysgu mwy am eu gwaith anhygoel. Roeddem yn lwcus o gael sgwrsio gyda John, Helen a Dave, gweld y cwch achub a dysgu ychydig am ddiogelwch y môr. Diolch yn fawr iawn iddyn nhw am eu hamser gwerthfawr ac edrychwn ymlaen at ddod yn ôl atoch yn y dyfodol.

**Welsh Whisperer**
Daeth y Welsh Whisperer yn ôl i weithio hefo rhai o'n dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 2 i greu podlediad am yr ysgol a'r holl brofiadau maent yn mwynhau yma. Rydym yn falch iawn o gael dysgu'r holl sgiliau newydd ac yn edrych ymlaen at groesawu Andrew yn ôl yn y dyfodol agos.



**Diwrnod Golchi Amgueddfa Llechi**
Am fore diddorol yn yr Amgueddfa gyda Anti Margiad, ble cawsom helpu gyda'r holl waith golchi a dysgu am a defnyddio'r bwrdd sgwrio, y twb a'r doli a'r mangl i olchi a sychu'r dillad. Hefyd cawsom arogli pob math o sebonau gwahanol a chael y cyfle i greu eu pêl sebon ein hunain. Diolch yn fawr iawn i holl staff yr Amgueddfa am y croeso cynnes unwaith eto - rydym wrth ein boddau yn dod i'ch gweld chi.

**Dydd Gŵyl Dewi**
Roedd pawb werth eu gweld yn gwisgo eu coch, gwyn a gwyrdd i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi eleni. Roedd llawer o hwyl i'w gael yn canu, dawnsio, gwnïo a pheintio. Fe osodon ni her i'r plant i helpu eraill ac i wneud y pethau bychain.









**Cerddorfa Ysgol**
Mae Mrs Alty wedi bod yn brysur yn creu cerddorfa gyda phlant Cyfnod Allweddol 2 - maent wedi bod yn edrych ar *'In The Hall of the Mountain King'* ac yn cydweithio'n arbennig mewn grwpiau gyda'u hofferynnau ac rydym yn edrych ymlaen i gael gwrando ar y darn terfynol.

**Gala Nofio**
Llongyfarchiadau mawr i'n tîm nofio a gystadlodd yn y gala cylch Bangor/ Ogwen yn ddiweddar. Roedd y pump wrth eu boddau yn cynrychioli'r ysgol ym mhwll nofio Bangor. Cawsom lwyddiant mawr ym mhob ras - da iawn chi!



**Brigâd Dân**
Diolch yn fawr i griw y Frigâd Dân Bangor am brynhawn hwyliog a difyr! Y plant wedi mwynhau cael eistedd yn y frigâd dân, gwisgo'r helmed a'r siaced a chael cwrdd y criw.

# Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

### Gair o ddiolch

Yn anffodus roedd camgymeriad yn y newyddion am deulu Coed Hywel yn y rhifyn diwethaf o Llais Ogwan ac felly dyma anfon y newydd yn gywir.

Fe hoffai teulu y diweddar Rhianwen Jones, Bryn Awel a Fferm Coed Hywel, Llandygai, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad ynghyd â'r rhoddion caredig er cof am Rhianwen a gyflwynwyd i Gartref Glan Rhos, Brynsiencyn yn ddiweddar. Diolch o waelod calon.

### Yn yr Ysbyty

Gwellhad buan i Wynne Roberts, Bryn Difyr, Braich Talog, Tregarth, sydd yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd. Brysiwch wella Wynne.

### Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i Gwenno Angharad Roberts, Fferm Dob, ddaeth yn fuddugol yng nghystadleuaeth canu'r delyn dan 19 oed yn Eisteddfod Sir yr Urdd Eryri, yn Pontio y ddiweddar. Bydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanymddyfri ar ddiwedd Mis Mai. Pob dymuniad da i ti Gwenno.

Llongyfarchiadau i Judah Parry, sydd yn ddisgybl yn ysgol gynradd Tregarth am ei lwyddiant yntau mewn dwy gystadleuaeth gerddorol yn yr Eisteddfod Sir. Pob llwyddiant i tithau Judah.

### Profedigaeth

Ar y 19eg o Chwefror bu farw Robert Gwynedd Ellis, (Robin fel ei gelwid ar lafar) ac yntau'n 89 mlwydd oed. Yn ŵr tawel, bonheddig ond yn llawn hiwmor sych fe'i cofier amdano yn gweithio yn Neintyddfa Davies y Dentist a hynny am nifer o flynyddoedd. Mae'n siŵr y bu yr hiwmor ynddo yn lleddfu poen nifer ohonom wrth aros am yr alwad i 'Gadair Davies Dentist'. Y teulu oedd yn bennaf ar ei feddwl y tu allan i oriau gwaith, Bu'n briod gyda Glenda Rees o Fangor am dros 60 mlynedd, gan setlo yn gyntaf ar Ffordd Tanrhiw, cyn symud i Hendyrpeg. Ganwyd dau o blant iddynt, Andrew a Susan, ac ymfalchïai Robin yn eu llwyddiant. Andrew fel peiriannydd Sifil yn Lerpwl a Susan yn gwasanaethu yn yr RAF. Roedd hefyd yn daid i ddau o blant.

Roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn pysgota ac yn aml y gwelid ef gyda'i enwair ar lan llynnoedd drwy Brydain, Iwerddon a hyd yn oed Canada. Os nad oedd ar lan y dwr byddai wrth ei fodd yn tendiad yr ardd uwchben y tŷ yn Hendyrpeg a'i fryd ar dyfu blodau a llysiau. Ond y tîm Criced lleol a fu ei fryd am dros chwedeg o flynyddoedd. Ef oedd Cadeirydd cyntaf y clwb wedi iddo gael ei ffurfio yn 1958. Wel, y fo oedd yr unig un o'r criw oedd a rhyw brofiad o'r gem wedi iddo fod yn aelod o dîm Clwb Bangor am sbel. Yn ystod y blynyddoedd bu'n chwaraewr, Capten, Pwyllgorddyn, Cadeirydd, Trysorydd gan orffen yn lywydd anrhydeddus. Ymfalchïai wrth weld yr ieuenctid yn ymuno ac yn chwarae eu rhan yn y clwb.

Gyda marwolaeth Robin gadawyd bwlch mawr o fewn yr ardal ac yn enwedig y Clwb Criced. Ond, yn naturiol, gadawyd y bwlch mwyaf o fewn y teulu. Gobeithio y bydd yr atgofion am yr amseroedd da a dreuliwyd ganddynt yn lleddfu rhywfaint ar y boen o golli Robin. Mae'r teulu am ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt, yn alwadau ffôn, cardiau ac ymweliadau â'r tŷ yn ystod eu profedigaeth. Anfonwn ninnau ein cofion a'n cydymdeimlad atynt yn eu colled enfawr.

## Capel Shiloh Newydd

Dyma'r gwasanaethau fydd yn y capel am yr wythnosau nesa, am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol.
**Ebrill 23**: Trefniant Lleol
**Ebrill 30**: Geraint Roberts, Llandegfan
**Mai 7**: Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid
**Mai 14**: Dr Ian Morris
**Mai 21**: Dr Alun Morton Thomas, Porthaethwy
**Mai 28**: Dr Jennie Hurd, Llanymynech

Penblwydd hapus iawn i'n cyn-weinidog, Parchedig Philip Barnett, Almondery, Swydd Efrog, a ddathlodd ei ben-blwydd yn 80 oed ar Fawrth 29. Pob dymuniad da a gwellhad buan pan fydd yn cael llawdriniaeth ar ei ben-glin ar ddiwedd Mis Ebrill.

Dathlodd Mona Williams, Ffordd Tanrhiw, ei phen-blwydd yn 85 yn ystod Mis Mawrth. Mae'n braf iawn cael cwmni Mona yn yr oedfaon ac ar fore Gwener yn Drws Agored. Gobeithio i chi gael penblwydd hapus gyda'r teulu Mona!

Gwellhad llwyr a buan i un o flaenoriaid y capel, sef Wynne Roberts, Bryn Difyr, sydd yn wael yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd.

Braf iawn oedd gweld un o selogion Capel Shiloh ar y Noson Lawen o Fethesda fu ar S4C ym Mis Mawrth, sef Helen Wyn (Tammy Jones) Bro Derfel. Tregarth. Mae ei llais yn parhau yn ardderchog a llawer yn cael pleser o fwynhau ei chanu. Mae aelodau Shiloh yn lwcus o wrando arni'n canu yn ystod Gwasanaethau Trefniant Lleol.

### Drws Agored

Mae'r drws ar agor yn Shiloh Newydd bob bore Gwener rhwng 10 a 12 o'r gloch. Croeso cynnes iawn i bawb ddaw draw am baned, sgwrs ac aelwyd gynnes ymysg cyfeillion.

## Merched y Wawr, Cangen Tregarth

Daeth nifer dda o aelodau'r gangen i Festri Capel Shiloh Newydd i ddathlu Gwyl Ddewi ar Fawrth 6. Mwynhawyd bwffe hyfryd o waith Karen o Fethesda a barn pawb oedd fod y noson wedi bod yn un gartrefol, braf. Croesawyd Gwenno Roberts o Fferm Dob i'n diddanu gyda alawon Cymreig ar y delyn a diolchwyd iddi hi a Sioned ei mham am fod mor barod i ddod i ddathlu yr Ŵyl gyda'r aelodau.

Bu chwech o aelodau'r gangen yng nghinio Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr yng ngwesty Cei Deganwy, Dydd Sadwrn, Mawrth 18, sef Carol Jones, Myfanwy Harper, Alison Carden, Anwen Griffiths, Valerie Ellis Jones a Gwenda Davies. Cafwyd pryd o fwyd bendigedig a daeth Sian a Sian o ardal Ysbyty Ifan i ddiddanu.

Bydd cyfarfod nesa y gangen yn Festri Capel Shiloh Newydd, Nos Lun, Ebrill 3 yng nghwmni Bethan Catrin, Nant yr Eira, Tregarth. Dewch yn llu i fwynhau noson llawn hwyl a chwerthin.


## Cais am Wirfoddolwyr

Mae Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru yn chwilio am wirfoddolwyr i ddarllen Llais Ogwan a'i recordio ar CD.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Nick Thomas, Swyddog Datblygu CDGC: nick@nwsb.org.uk

Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru - 'Cefnogi pobl sy'n byw gyda cholli golwg'

# CROESAIR




## AR DRAWS

1 Gweithgar ? Ydw, 'di bod yn brysur ddim yn boen i mi (5)
4 Mae un enwog yn Nhalybont, Ceredigion a Llanrwst (5)
8 Yr hen un a'i gyfreithiau i wella, a'r un newydd a'i ysbytai i wella (5,2)
9 Bod yn groes i 1 Ar Draws (5)
10 Gwastraffus (5)
11 Y mêt sy'n ymgyrraedd at fod yn ffrind gorau (7)
12 Un o'r ddwy yn 4 Ar Draws (6,5)
16 Pob sut ! Anodd dibynnu arno (7)
18 Gwlad Gandhi, y Dalai Lama a'r FamTeresa (5)
20 Ni all neb na dim fod yn well (5)
21 Maent yn loriau efo lle i ddangos celfyddyd (7)
22 Llawn weithiau, ond byth yn wag. Newydd yn hytrach. (5)
23 "- - - - - o'r Galon" CD D.Iwan (5)

## I LAWR

1 Awydd a dymuniad cryf (6)
2 Nyth yn gartref, ond nid yw'n aderyn coch na llwyd (5)
3 Nid yw wedi talu yr hyn sydd arno (7)
4 Yr ymyl isaf (5)
5 Un o'r deuddeg ddewiswyd i genhadu (7)
6 Enillydd coron Ynys Môn 2017 (5)
7 Yn aml, canlyniad diboblogi ar addysg cefn gwlad (3,8)
13 Marchnad, morthwyl a mart i'r diben hwn (7)
14 Nid yn aml (7)
15 Gwartheg Cymreig (2,4)
16 Mewn penfras gellir cael un sy'n ei symud (5)
17 Gorchymyn i ddod, fel yn "O - - - - - pob Cristion" carol (5)
19 I gadw troseddwr yn gaeth (5)

Atebion erbyn **5ed Mai 2023** fan bellaf (ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach) i 'Croesair Ebrill', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

## ATEBION CROESAIR MAWRTH 2023

**AR DRAWS** 1 Gwgu, 3 Camu, 7 Herwr, 8 Anweddus, 10 Brechdan, 11 Glowr, 12 Dyddio, 17 Arlwy, 18 Afrosgo, 19 Lleiandy, 21 Ymron, 22 Egin, 23 Llnau

**I LAWR** 1 Gohebu, 2 Gorwel, 3 Cyw, 4 Moddion, 5 Credadwy, 6 Carnedd Dafydd, 9 Serch, 11 Gwobrwyo, 13 Naill, 14 Cleiog, 15 Estron, 16 Tonnau, 20 Non

Dyma'r ychydig wallau a gafwyd y tro yma: 'achlur' yn lle 'arlwy' (17 Ar Draws) a 'credydwr' yn hytrach na'r ateb cywir 'credadwy' (5 i lawr).

Gan y canlynol y cafwyd atebion hollol gywir, llongyfarchiadau i chi: David T. Hughes, Cyffordd Llandudno; Jean Vaughan Jones, Dilys Parry, Rhiwlas; Cynon a Branwen Tomos, Llanuwchllyn; Rita Bullock, Doris Shaw, Ann Morris, Gaynor Elis-Williams, Gwen Evans, Cath Aran, Bethesda; Meilyr Wyn, Gerlan; Gwenda Davies, Llanfairpwll; Medi Michael, Bangor; Judith Hughes, Llangoed; Dilys Wyn Griffith, Abergele; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Barbara Jones, Talybont; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Rosemary Williams, Tregarth; Gill King, Mynydd Llandygai; Iona Williams, Llanddulas

Aiff y wobr am yr ymgais hollol gywir gyntaf o'r het i Meilyr Wyn, 11 Bryn Caseg, Gerlan, Bangor, Gwynedd LL57 3RW. Da iawn chi.

post@llaisogwan.com


**JOHN ROBERTS**



Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr

Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995



Sefydlwyd 1969
m.hughes a'i fab
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
garribryn@aol.com
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

# Chwaraeon

**Pencampwriaeth yn dod Adref?**
Eleni mae cyfle da i Fethesda gipio pencampwriaeth y gynghrair. Y llynedd boddwyd yn ymyl y lan gan orffen yn ail. Ond eleni, a nifer o gemau sydd yn weddill i'w chwarae ar Barc Meurig, mae'r gobeithion yn uchel. Ni fu'n ddiwrnod ffŵl Ebrill gwael i'r tîm wrth iddynt drechu Pentraeth o 7-3 ar Barc Meurig ac felly yn dal ei safle a frig yr adran. Y prif sgorwyr am eleni yw Scott Hughes 14, Benn Laundstorm 13, Joe Todd 12, Daniel Hughes 9 ac Osian Hughes 8.

Ar ddechrau mis Ebrill mae Bethesda ar frig yr Adran gydag 51 o bwyntiau, Llanberis yn ceisio ei dal a hwythau ar 42 Pwynt ac yn drydedd mae Clwb Pwllheli gyda 39 pwynt. Bydd croeso i chwi gefnogi y tîm lleol ym Mharc Meurig rhwng rwan a diwedd y tymor.


British Association Landscape Industries
ACCREDITED

TRAWIADOL A CHYNALIADWY

GWERTHFAWROGWCH NATUR HARDDWCH GYDA THIRLUNIO CALED WELSH SLATE

Crëwyd Llechi Cymreig dros filiynau o flynyddoedd, gan esblygu'n ddeunydd dramatig, hardd ac unigryw a ddefnyddir gan benseiri, dylunwyr a pherchnogion tai.

01248 600656
enquiries@welshslate.com
welshslate.com

LLWYBRAU ▲ WALIAU ▲ COPINAU ▲ CERRIG NODWEDD
MONOLITHAU ▲ CERRIG MÂN ADDURNIADOL




Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen — Plaid Cymru



Tregarth a Mynydd Llandygai • cynghorydd.BecaRoberts@gwynedd.llyw.cymru • 07436 927237
Gerlan • cynghorydd.EinirWynWilliams@gwynedd.llyw.cymru • 07747 690456
Canol Bethesda • cynghorydd.RheinalltPuw@gwynedd.llyw.cymru • 07789 742092
Arllechwedd • cynghorydd.DafyddMeurig@gwynedd.llyw.cymru • 07765 400140
Rachub • cynghorydd.PaulRowlinson@gwynedd.llyw.cymru • 07949 034967

Contractwyr Trydanol
**Jones & Whitehead Cyf**
Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

constructionline · NICEIC · ECA · CHAS